# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012-13 yr Archwilydd Cyffredinol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn a’r cyfrifon yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion isod.


Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
E-bost info@wao.gov.uk

Gwefan www.wao.gov.uk
Twitter @WalesAudit



(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru


Gorffennaf 2013

# Uchafbwyntiau

Cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon dros **800** o gyrff cyhoeddus yng Nghymru

**14**
**O ADRODDIADAU CENEDLAETHOL**
yn edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus

Wedi cyhoeddi asesiadau gwella blynyddol yn yr **28** **awdurdod gwella LLYWODRAETH LEOL,** ac asesiadau strwythuredig o **10 corff y GIG**

**Ardystio 32** o gynlluniau grant llywodraeth leol gwerth dros £3 biliwn, yn cynnwys dros **750** o hawliadau unigol, yn arwain at addasiadau gwerth **£3 MILIWN**

Cyrraedd **LEFEL 4** o Safon Amgylcheddol y **Ddraig Werdd**

Lleihau ein gwastraff **17%** a chynyddu cyfran y gwastraff a ailddefnyddir neu a ailgylchir

**Lleihau'r cyfraddau absenoldeb** oherwydd salwch at lefel **sydd yn is na** meincnod y sector cyhoeddus

# 2012-13 yn Swyddfa Archwilio Cymru

## Ebrill



Nodi'r hyn a wnawn i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da

## Mai

Rhoi ein barn ar ddeddfwriaeth yn anelu at gryfhau ein systemau llywodraethu ac atebolrwydd

Cyflwyno canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol, gan gynnwys nodi £6 miliwn o dwyll a gordaliadau



## Meh

Cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon y rhan fwyaf o gyrff y GIG yng Nghymru

Cyhoeddi astudiaeth o brosesau ymgysylltu â'r cyhoedd cynghorau




Cynnal cynhadledd â'r nod o gynyddu llwyddiant gwasanaethau cyhoeddus

## Gorff

Cyrraedd Lefel 4 o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Asesu sefyllfa ariannol cyrff y GIG



## Awst



Cyhoeddi ein casgliadau ynghylch p'un a yw'r camau a gymerwyd gan wasanaethau cyhoeddus yn ddigon i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol

## Medi

Yn ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2011-12 amlinellu'r £1 filiwn o arbedion cost ac effeithlonrwydd a gyflawnwyd gennym


Cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon y rhan fwyaf o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru





Cyhoeddi adroddiad ar gydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

Cyflwyno adroddiad er budd y cyhoedd ar fethiannau ym Mwrdd Draenio Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg



Dwyn ynghyd ganfyddiadau ein hadolygiadau o'r defnydd o dechnoleg gan gynghorau

Cyhoeddi ein casgliadau ar drefniadau cynllunio at argyfwng a gwydnwch



Cyflwyno adroddiad ar p'un a gaiff buddiannau bwriadedig contract newydd meddygon ymgynghorol y GIG eu cyflawni

Dod i'r casgliad na all cyrff cyhoeddus yng Nghymru eto ddangos gwerth am arian yn eu defnydd o wasanaethau ymgynghori

**Hyd** | **Tach** | **Rhag** | **Ion** | **Chwef** | **Maw**

Cyflwyno archwiliadau o gomisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid yn lle archwiliadau o awdurdodau'r heddlu



Ymgynghori â'n staff, cyrff cyhoeddus yng Nghymru a phobl Cymru ar ein strategaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer 2013-2016

Ymgynghori ar ein ffioedd arfaethedig ar gyfer 2013-14, a ddylai arwain at leihau ffioedd archwilio rhwng dau a thri y cant

Cyhoeddi adroddiad ar weithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru



Cyhoeddi ein blaenraglen o astudiaethau

Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol

Cwblhau ail gam *Ignite*, sef ein rhaglen i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr




Cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ar y broses a ddefnyddiwyd gan Gyngor Caerffili i bennu cyflog prif swyddogion

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru



Eleni, aeth Swyddfa Archwilio Cymru ati i ymestyn effaith fuddiol gwaith archwilio cyhoeddus – gan weithio hyd yn oed yn agosach gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru ac, yn benodol, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yn 2012-13, gwnaethom barhau i ganolbwyntio'n fanwl ar helpu cyrff cyhoeddus i ddelio â'r pwysau ariannol cynyddol a wynebir ganddynt. Cyflawnwyd amrywiaeth eang o waith archwilio a gwella gan gadw'r ffocws hwnnw mewn cof bob amser. Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer 2013-2016 a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus, rheolaeth ariannol ac arloesedd er mwyn ategu ein diben craidd o ddarparu sicrwydd a hyrwyddo gwelliant. Credaf y bydd yn ein helpu i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i wario'n ddoeth er budd pobl Cymru.

Yn fewnol, mae ein trefniadau cynllunio busnes a'n trefniadau rheoli yn cael eu datblygu er mwyn ategu'r Strategaeth honno yn y ffordd orau bosibl ac rwy'n falch iawn o'r ffordd y mae staff ar bob lefel yn ymgymryd â'r dasg. Rwy'n ddiolchgar am y cymorth a roddwyd a'r gwaith caled a wnaed gan gyfarwyddwyr anweithredol, fy staff fy hun a'r rheini sydd wedi cefnogi ein gwaith drwy gontractau allanol.

Rydym yn dwyn ynghyd ein harbenigwyr perfformiad ac archwilio ariannol er mwyn helpu i wella trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yng Nghymru – materion sy'n dal i achosi pryder i'r cyhoedd. Rydym hefyd yn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a sectorau gwasanaethau cyhoeddus amrywiol er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu gwybodaeth archwilio amserol i lunwyr polisi a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn hanfodol bwysig mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym a lle ceir cydweithredu, newid mawr ac ad-drefnu posibl o ran gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r sefydliad wedi bod yn paratoi ar gyfer newidiadau i'n trefniadau llywodraethu ein hun, y mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wedi'u cadarnhau ac rydym ninnau'n eu croesawu. Bu ein pwyslais ar reolaeth ariannol effeithiol, arloesedd a threfniadau llywodraethu cryfach cyn bwysiced yn fewnol ag y bu o ran ein harchwiliadau. Mae ein systemau mewnol yn gwella ac yn cynhyrchu gwybodaeth rheoli ariannol gliriach a chynharach. Gyda ffocws cryfach ar arweinyddiaeth ac atebolrwydd cliriach, mae Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i groesawu ei Bwrdd newydd a chael effaith fwyfwy cadarnhaol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cynnwys a chanllaw i'r darllenydd

10 **Amdanom ni**

Pwy ydym ni, yr hyn a wnawn a gyda phwy rydym yn gweithio

12 **Crynodebau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol**

Ffigurau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol allweddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys ein hincwm a gwariant, cynhyrchu gwastraff ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac amrywiaeth a lles y gweithlu

18 **Rhoi sicrwydd**

Astudiaethau achos o'r modd rydym wedi rhoi sicrwydd amserol, dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, o lywodraethu a gwarchod arian cyhoeddus ac asedau yng Nghymru

24 **Cynnig cipolwg**

Enghreifftiau o'r meysydd lle rydym wedi cynnig cipolwg defnyddiol yn 2012-13 o'r graddau y caiff adnoddau eu defnyddio'n dda i ddiwallu anghenion pobl Cymru

29 **Hyrwyddo gwelliant**

Adegau, dros y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn, pan rydym wedi nodi'n glir a hyrwyddo ffyrdd o wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

36 **Rhedeg y busnes**

Yr hyn rydym wedi ei wneud eleni i adeiladu ar ein gwaith o fod yn sefydliad atebol ac effeithlon a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol

44 **Ffocws ein gwaith yn y dyfodol**

Trosolwg o'n strategaeth ar gyfer 2013-2016, ein blaenraglen o astudiaethau gwerth am arian, ein hamcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2013-14, a'n gwaith parhaus mewn perthynas â datblygu cynaliadwy

48 **Datganiad cyfrifon**

Rhagor o fanylion am ein cyllid a'n trefniadau llywodraethu: ein datganiadau ariannol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Adroddiad Cydnabyddiaeth ac Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol

# Amdanom ni

Yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr a benodir ganddo mewn llywodraeth leol yw archwilwyr allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru[1]. Maent yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir yn flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau o'r arian hwn i'r GIG yng Nghymru (dros £5 biliwn) ac i lywodraeth leol (dros £4 biliwn).

Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2005. Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio'r Swyddfa yn gyffredinol yn ogystal â'i gweithdrefnau mewn perthynas â materion ariannol a materion eraill.

1 I gael rhagor o wybodaeth gweler Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a deddfwriaeth gysylltiedig.

## Yr hyn a wnawn

Fel archwilwyr allanol, ystyriwn yn annibynnol a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ac a gyfrifir amdano'n briodol. Gwnawn y gwaith hwn ar ran y cyhoedd ac er budd y cyhoedd. Mae gwaith archwilio yn ychwanegu gwerth at gymdeithas fel a ganlyn:

- rhoi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol o'r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl;
- nodi a hyrwyddo ffyrdd o wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal rhaglen eang ond cymesur o waith archwilio allanol. Mae'r rhaglen gyffredinol yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, asesiadau llywodraeth leol, ardystio hawliadau am grant a hwyluso'r Fenter Twyll Genedlaethol.

Caiff tua dwy ran o dair o'r gwaith archwilio blynyddol ei gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gosod gweddill y gwaith ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, ac mae'n contractio sgiliau a gwasanaethau arbenigol i helpu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.

Nodir arfer da o'n holl waith archwilio ac fe'i lledaenir drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da (adnodd ar-lein sydd ar gael am ddim i bawb) a chyfryngau eraill gan gynnwys seminarau dysgu a rennir.

## Gyda phwy rydym yn gweithio

Pobl Cymru

Y Cynulliad Cenedlaethol, yn bennaf drwy ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru

Darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a'r cyrff sy'n eu cynrychioli

Cyrff adolygu allanol perthnasol eraill



Y Tîm Gwasanaethau Busnes yn swyddfa Caerdydd: Laurie Davies, Gill Greer, Anthea Ellis, Sally Li, Kevin Dawson a Peter Woolcock.

# Crynodebau ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol

## Crynodeb ariannol

### Canlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13

Yn ystod 2012-13, derbyniwyd £17.2 miliwn mewn incwm a £4.7 miliwn gan Gronfa Gyfunol Cymru a oedd, gyda'i gilydd, £2 filiwn yn fwy na'n gwariant ac felly'n gyfystyr â chynnydd o £2.4 miliwn mewn ecwiti trethdalwyr (heb gynnwys y £268,000 sy'n ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru). Mae a wnelo'r tanwariant bron yn gyfan gwbl â rhyddhau'r ddarpariaeth o £2.4 miliwn a gafodd ei gynnwys yng nghyfrifon 2011-12, ac mae'n dilyn cadarnhad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ym mis Rhagfyr 2012 nad oes unrhyw rwymedigaeth hanesyddol yn deillio o'r newid yn statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol, a ddaeth yn weithredol o 1 Ebrill 2013.

Mae Arddangosyn 1 yn cymharu cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr a newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2012-13 a 2011-12.

### Incwm

Mae Arddangosyn 2 yn rhoi dadansoddiad o'r incwm a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers 2009-10, ynghyd â'r arian a dderbyniwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru. Derbyniwyd cyfanswm incwm o £15.9 miliwn o ffioedd a godwyd ar gyrff a archwiliwyd yn 2012-13. Roedd hyn yn ostyngiad o naw y cant o gymharu ag incwm tebyg a dderbyniwyd yn 2011-12 (£17.6 miliwn). Roedd a wnelo'r gostyngiad hwn â gostyngiad yn lefel y gwaith ychwanegol nas cynlluniwyd a wnaed yn 2012-13, a nifer o swyddi gwag sydd wedi'u llenwi ers hynny. Hefyd, yn 2012-13 derbyniwyd Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gwerth £1.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru (£1.3 miliwn yn 2011-12) a £4.7 miliwn gan Gronfa Gyfunol Cymru (£4.8 miliwn yn 2011-12).

### Gwariant

Ac eithrio effaith cynnwys y ddarpariaeth TAW yng nghyfrifon 2011-12 a rhyddhau'r ddarpariaeth honno yn 2012-13, gwelwyd cynnydd o ychydig o dan £300,000 mewn gwariant gweithredu, a oedd yn cynnwys dros £200,000 o gostau untro mewn perthynas â dibrisiant ar gyfer dadfeiliadau. Gwelwyd cynnydd o lai na £0.1 miliwn mewn costau staff a lefel gwasanaethau allanol rhwng y ddwy flynedd.


Wrth edrych i'r dyfodol, rhagwelwn y bydd ein sylfaen costau yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r newid yn ein statws TAW, sy'n golygu na allwn godi TAW mwyach ar ffioedd archwilio a godir ar gyrff y GIG a chyrff llywodraeth leol.

Mae Arddangosyn 3 yn rhoi dadansoddiad o wariant rhwng 2009-10 a 2012-13.


## Arddangosyn 1: Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr a newidiadau yn ecwiti trethdalwyr

| £'000 | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| **Incwm ac adnoddau** | | |
| Ffioedd archwilio ac arolygu: | | |
| Llywodraeth leol[2] | 12,366 | 13,213 |
| Y GIG | 3,239 | 4,029 |
| Llywodraeth ganolog | 1,588 | 1,669 |
| Incwm arall | 23 | 27 |
| Cyfanswm yr incwm | 17,216 | 18,938 |
| **Gwariant** | | |
| Costau staff | (14,981) | (14,855) |
| Gwasanaethau allanol[3] | (3,451) | (3,507) |
| Costau gweithredu eraill | (829) | (5,354) |
| Treth gorfforaeth | 0 | 23 |
| Cyfanswm y gwariant | (19,261) | (23,693) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr** | **(2,045)** | **(4,755)** |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 4,740 | 5,303 |
| Ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (268) | (1,945) |
| **Newid yn ecwiti trethdalwyr** | **2,427** | **(1,397)** |
| **Ecwiti trethdalwyr ar 1 Ebrill** | **(1,235)** | **162** |
| **Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth** | **1,192** | **(1,235)** |

## Arddangosyn 2: Incwm ac ariannu




## Arddangosyn 3: Gwariant




2 Yn cynnwys ffioedd am archwilio cyfrifon, ardystio grantiau a gwaith asesu gwelliant, ynghyd ag arian grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein gwaith asesu gwelliant.

3 Gwaith archwilio ar gontract allanol i gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat yn bennaf.

# Crynodeb amgylcheddol

Yn 2012-13, gwnaethom y canlynol:

> Cyflawni ein nod o gyrraedd Lefel 4 o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru yn ein holl brif swyddfeydd

> Lleihau ein gwastraff 17 y cant o gymharu â'r llynedd (44 y cant dros dair blynedd) a chynyddu cyfran y gwastraff a ailgylchir neu a ailddefnyddir

> Cynyddu ein hallyriadau $CO_2$e 3.6 y cant o gymharu â'r llynedd (o ganlyniad i gynyddu'r defnydd o ynni), ond mae'n dal i fod 8.7 y cant yn llai dros dair blynedd


> Cyhoeddi ein cylchlythyr electronig mewnol cyntaf ar gynaliadwyedd, sef *Refresh*

> Gwella effeithlonrwydd ein defnydd o swyddfeydd saith y cant, yn sgil cau dwy swyddfa ac adleoli i safleoedd llai









| £'000 | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|
| **Rheoli amgylcheddol** | | | |
| Lefel achredu'r Ddraig Werdd | 4 | 3 | 3 |
| **Y defnydd o ddŵr** | | | |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ | 1,911[4] | 1,684 | 1,606 |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ fesul WTE[5] | 8.1 | 7.5 | 7.2 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 3,336 | 2,763 | 2,608 |
| **Y defnydd o bapur** | | | |
| Y defnydd o bapur mewn rimiau | 2,385 | 2,465 | 2,445 |
| Costau cyflenwi papur £ | 6,112 | 5,989 | 5,627 |
| **Gwastraff** | | | |
| Cyfanswm y gwastraff kg | 89,967 | 108,387 | 139,207 |
| Papur a chardbord a ailgylchwyd | 7,703 | 13,455 | 15,820 |
| Caniau, gwydr, plastigion a ailgylchwyd | 25,859 | 21,170 | 22,792 |
| Cyfarpar amldro e.e. ffonau symudol | 68 | 84 | 1,385 |
| Tirlenwi | 56,340 | 73,678 | 99,210 |
| Deunydd wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio fel % o'r holl wastraff[6] | 37.4 | 32.0 | 28.7 |
| Cyfanswm costau gwaredu £ | 8,586 | 9,447 | 13,934 |
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr**[7] | | | |
| Cyfanswm yr allyriadau kg $CO_2e$ | 554,482 | 535,304 | 576,484 |
| Y gellir eu priodoli i deithiau busnes | 254,597 | 257,330 | 295,133 |
| Mewn car | 241,726 | 242,742 | 281,085 |
| Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr | 12,871 | 14,588 | 14,048 |
| Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni | 299,885 | 277,974 | 281,351 |
| Trydan | 293,505 | 271,908 | 273,685 |
| Nwy | 6,380 | 6,066 | 7,666 |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £ | 197,284 | 213,394 | 223,606 |
| Cyfanswm gwariant ar ynni £ | 69,874 | 56,828 | 52,011 |
| **Effeithlonrwydd ystad** | | | |
| Cost fesul WTE £[8] | 3,186 | 3,365 | - |
| Effeithlonrwydd cost[9] £ fesul $m^2$ | 265 | 260 | - |
| Effeithlonrwydd o ran gofod $m^2$ fesul WTE | 12.0 | 12.9 | - |

4 Amcangyfrif oherwydd cyfnod bilio.

5 Arfer nodweddiadol a gorau ar gyfer y defnydd o ddŵr mewn swyddfa yw 9.3 $m^3$ a 6.4 $m^3$ yn y drefn honno yn ôl Cyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE) y flwyddyn (canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd).

6 66 y cant ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2011-12 (*Adroddiad Cyflwr yr Ystad 2011-12,* Llywodraeth Cymru).

7 Cyfrifwyd gan ddefnyddio canllawiau DEFRA/DECC 2012 ar gyfer adroddiadau cwmnïau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

8 O gymharu â £3,418 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2012.

9 Yn cynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill, ond heb gynnwys un mis o gostau eraill o safleoedd blaenorol.

# Crynodeb cymdeithasol

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon:


> Roedd proffil oedran a rhyw ein gweithlu yn debyg i'r Gwasanaeth Sifil ond roedd llai o gyflogeion rhan amser


> Nododd tua 12 y cant o staff fod ganddynt sgiliau Cymraeg canolradd neu uwch


> Gostyngwyd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch 30 y cant, gan gynnwys lleihad sylweddol yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb hirdymor


> Roedd ein cyfradd trosiant llafur flynyddol yn gymaradwy â meincnod CIPD

> Roedd tua chwarter y staff mewn bandiau cyflog uwch dîm arwain a thraean y staff mewn bandiau cyflog rheoli yn fenywod



| £'000 | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y staff a chydnabyddiaeth** | | | |
| Nifer y staff a gyflogwyd yn uniongyrchol ar ddiwedd y flwyddyn | 251 | 254 | 253 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn ar ddiwedd y flwyddyn | 234.5 | 225.6 | 222.4 |
| Cyflog gros blynyddol staff canolrifol a buddiannau mewn da[10] £ | 46,347 | 45,964 | 45,270 |
| **Trosiant** | | | |
| Cyfradd trosiant llafur flynyddol[11] % | 10.8 | 8.3 | 12.4 |
| **Rheoli presenoldeb** | | | |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff[12] | 6.7 | 9.7 | 12.4 |
| Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.9 | 2.4 | 2.3 |
| Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod) | 2.8 | 7.3 | 10.1 |
| **Amrywiaeth** | | | |
| Benyw % | 52.2 | 50.0 | 47.4 |
| O dan 30 oed[13] % | 10.0 | 5.9 | 7.1 |
| Rhwng 30 a 59 oed % | 85.2 | 87.0 | 85.0 |
| 60 oed a throsodd % | 4.8 | 7.1 | 7.9 |
| **Patrymau gweithio** | | | |
| Cyflogeion rhan amser fel % o'r cyfanswm[14] | 16.3 | 18.6 | 19.4 |
| I ddynion | 3.3 | 11.1 | 15.8 |
| I fenywod | 28.2 | 26.0 | 23.3 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | | |
| % y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol[15] | 87.7 | 86.6 | 96.4 |
| **Dosbarthiad graddfeydd** | | | |
| Staff mewn bandiau uwch dîm arwain (9 i 11) % | 5.2 | 5.1 | 5.1 |
| Staff mewn bandiau rheoli (6 i 8) % | 21.5 | 22.5 | 22.9 |
| Staff mewn bandiau cyflog eraill % | 73.3 | 72.3 | 71.9 |
| % y staff uwch dîm rheoli sy'n fenywod | 23.2 | 23.2 | 23.2 |
| % y staff rheoli sy'n fenywod | 35.2 | 35.1 | 32.8 |

10 £45,331 ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a £41,050 ar gyfer Audit Scotland (yn unol â chyfrifon blynyddol cyhoeddedig 2012-13).

11 10.1 y cant ganolrifol ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i *Arolwg Adnoddau a Chynllunio Talent* CIPD yn 2012.

12 7.9 diwrnod fesul cyflogai'r flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i *Arolwg Rheoli Absenoldeb* blynyddol CIPD yn 2012.

13 *Arolwg Blynyddol o Gyflogaeth yn y Gwasanaeth Sifil - ffigurau 2012:* 10.5 y cant dan 30 oed, 82.1 y cant rhwng 30 a 59 oed a 7.4 y cant yn 60 oed a throsodd.

14 23.6 y cant ar gyfer y Gwasanaeth Sifil yn 2012 (8.5 y cant ar gyfer dynion yn unig, 37.0 y cant ar gyfer menywod yn unig).

15 89 y cant ar gyfer y cyflogeion hynny o'r sector cyhoeddus a gafodd eu cynnwys yn *Employee Outlook* CIPD – arolwg cynrychioliadol o 2,000 o bobl mewn cyflogaeth, *Labour Market Outlook Winter 2012-13*, CIPD, Chwefror 2013.



# Rhoi sicrwydd

Yn yr adran hon rydym wedi cynnwys rhai astudiaethau achos o'r modd rydym wedi rhoi sicrwydd amserol yn 2012-13 mewn perthynas â llywodraethu a gwarchod arian cyhoeddus ac asedau yng Nghymru.

# Archwilio cyfrifon

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi cyfrif am yr arian yn eu gofal. Y brif ffordd y maent yn gwneud hyn yw drwy baratoi cyfrifon blynyddol amserol a chywir. Yn ein gwaith archwilio ariannol rydym yn canolbwyntio ar archwilio'r cyfrifon hyn a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod.

Yn 2012-13, cyhoeddwyd adroddiadau gennym ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn eu plith roedd Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd, awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau ac ymddiriedolaethau heddlu a phrawf, cronfeydd pensiwn a chynghorau cymuned a thref.

Roedd archwilwyr yn aml yn awgrymu diwygiadau sylweddol i gyfrifon drafft cyrff, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir, ac yn gwneud llawer o argymhellion ar gyfer gwelliant i'r rhai a oedd yn gyfrifol am reoli a goruchwylio'r cyfrifon.



Tîm archwilio Caerdydd: David Phillips, Roy Blake, Nadeem Ashraf, Simon Howells, Joanne McCarthy, Daxa Varsani, Rosemarie Khan, Janet McNicholas, Diane Auton a Mair Evans.

# Archwilio proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge

Cafodd hen Westy River Lodge, Llangollen, ei brynu gan Lywodraeth Cymru am £1.6 miliwn ym mis Mawrth 2007. Y bwriad oedd i sefydliad nid er elw lleol ddatblygu menter gymunedol drwy brydlesu'r eiddo neu ei brynu'n amodol. Fodd bynnag, ni lwyddodd y sefydliad i gyflawni telerau cytundeb i brydlesu'r eiddo ac ers mis Mehefin 2010 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn chwilio am ffyrdd amgen o ddefnyddio'r eiddo.

Ym mis Hydref 2011, yn sgil cryn drafod cyhoeddus ynghylch diben y broses gaffael a ph'un a oedd swyddogion y llywodraeth wedi dilyn y broses briodol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn bwriadu cynnal archwiliad o broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu'r eiddo.

Pan gynhaliwyd ein harchwiliad, roedd yr eiddo yn dal i fod yn wag ac roedd ei werth ar y farchnad wedi haneru i tua £800,000. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio dros £1 filiwn arall i'w atgyweirio a'i adnewyddu. Cyhoeddodd ein tîm ei adroddiad ar 14 Mehefin 2012. Daethom i'r casgliad fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu'r gwesty am £1.6 miliwn yn ddiffygiol ac yn werth gwael am arian.

Yn sgil ein hargymhellion, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau ers hynny i atgyfnerthu ei threfniadau llywodraethu a moderneiddio ei gweithdrefnau a'i systemau ariannol er mwyn adlewyrchu arfer gorau.



## Adroddiad cryno ar gyfrifon awdurdodau lleol 2011-12

Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd ail adroddiad gennym yn dwyn ynghyd ganlyniadau gwaith archwilio cyfrifon ym mhob corff llywodraeth leol o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Ar y cyfan roedd awdurdodau wedi paratoi cyfrifon a phapurau ategol amserol. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd cyffredin gennym lle'r oedd angen i awdurdodau wella er mwyn sicrhau bod cyfrifon cywir, wedi'u hategu'n dda yn cael eu darparu i'w harchwilio.

Gwnaethom hefyd amlinellu bod lle i egluro triniaeth gyfrifyddu mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyfrifyddu ysgolion, methodolegau prisio ar gyfer tai cyngor (lle caiff technegau prisio gwahanol eu defnyddio o un cyngor i'r llall) a chostau adfer hen safleoedd tirlenwi.

Ni wnaeth y rhan fwyaf o awdurdodau baratoi eu ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan drafft ar amser. Rydym yn disgwyl i'r sefyllfa hon wella yn y flwyddyn i ddod.

Yn 2013-14, rydym yn bwriadu ehangu'r adroddiad cryno hwn ar ein harchwiliad o waith cyfrifon i gwmpasu pob sector.

## Arolygiad arbennig o Gyngor Sir Penfro

Gwnaethom gynnal arolygiad pellach o drefniadau llywodraethu corfforaethol yng Nghyngor Sir Penfro yn ystod haf 2012. Unwaith eto, talwyd sylw penodol i'r modd y rhoddodd y Cyngor drefniadau diogelu plant a phobl ifanc ar waith.

Er i ni nodi, mewn ymateb i argymhellion cyrff adolygu allanol[16], fod y Cyngor wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau a wnaeth wella ymwybyddiaeth o faterion diogelu, nid oedd wedi ymdrin ag achosion sylfaenol methiannau. Roedd y Cyngor yn gweithredu'n rhy araf o ran ymdrin â materion difrifol megis defnyddio ystafelloedd ystyried ("timeout") ac nid oedd yn rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol. Hefyd, prin fu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor ers mis Ionawr 2012 o ran atgyfnerthu rôl herio a sicrhau ei aelodau etholedig.

Ers i'r arolygiad pellach hwn gael ei gwblhau, mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o newidiadau sylweddol ar lefel uwch reoli ym meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae arsylwadau diweddar o waith craffu hefyd yn dynodi bod mwy o awydd i ateb her ac mae Aelodau yn dechrau dwyn swyddogion i gyfrif yn agosach. Os caiff y newidiadau hyn eu cynnal gallent gefnogi gwelliant.

Mae ein gwaith hefyd wedi cael effaith ehangach gan fod cynghorau eraill wedi bwrw golwg dros eu trefniadau yn erbyn canfyddiadau ac argymhellion ein harolygiad. Rydym wrthi'n ystyried cynnal astudiaeth Cymru gyfan o fesurau diogelu er mwyn profi effeithiolrwydd trefniadau pob cyngor.

16 Yn cynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn), Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru.



## Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

Mae grantiau yn ffynhonnell bwysig o arian yng Nghymru. Wrth ddyfarnu grantiau, mae cyllidwyr yn gosod amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n eu derbyn ddefnyddio'r arian at y dibenion y cytunwyd arnynt yn unig ac o dan reolaethau llym. Os caiff gais i wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a ffurflenni ar gyfer grantiau a dalwyd neu gymorthdaliadau a wnaed.

Yn 2012-13, ardystiwyd 32 o gynlluniau llywodraeth leol gennym, a oedd yn werth tua £3 biliwn ac yn cynnwys dros 750 o hawliadau unigol. O ganlyniad i'n gwaith, bu'n rhaid addasu un o bob pump o'r hawliadau hynny (er mwyn cywiro gwall) neu roi barn amodol (er mwyn nodi anghytundeb neu ansicrwydd ynglŷn â rhan o'r gwariant a hawliwyd). Gwnaed addasiadau gwerth £3 miliwn gros ac roedd newidiadau a ddeilliodd o farn amodol yn werth hyd at £25 miliwn. Ardystiwyd hefyd hawliadau gwerth tua £300 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

## Craffu ar geisiadau am arian o Gronfa Gyfunol Cymru

Cronfa Gyfunol Cymru yw'r prif gyfrwng o dderbyn a dosbarthu arian ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Darperir y rhan fwyaf o'r arian a delir i'r gronfa gan Lywodraeth y DU, fel y'i hawdurdodir gan Senedd y DU. Mae angen i'r Archwilydd Cyffredinol gymeradwyo pob taliad o'r gronfa hon, ar ôl cadarnhau bod y taliadau arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a, lle y bo'n briodol, awdurdodiad cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r symiau dan sylw yn rhai mawr - tua £1 biliwn y mis yn ystod 2012-13. Llwyddwyd i brosesu'r rhan fwyaf o geisiadau o dan Gronfa Gyfunol Cymru ar yr un diwrnod ag y daethant i law, ac ymdriniwyd ag unrhyw anghysondebau mewn ceisiadau fel mater o flaenoriaeth.

# Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw

Gall gohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon am fusnes cyhoeddus lywio ein rhaglen waith drwy nodi materion y dylid ymchwilio iddynt ymhellach. Ein polisi yw ymateb yn ddi-oed i bryder cyhoeddus mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol.

O dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr y mae'n eu penodi mewn llywodraeth leol eu cydnabod yn 'unigolion rhagnodedig' a all dderbyn datgeliadau gan gyflogeion neu gyn-gyflogeion cyrff a archwilir drwy drefniadau 'chwythu'r chwiban'. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi gwybod i'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol am unrhyw achos o drin elw troseddau (gwyngalchu arian) y daw ef neu'i staff ar ei draws yn ystod eu gwaith.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - adroddiad er budd y cyhoedd

Ym mis Mawrth 2013, gwnaethom gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ar y broses a ddefnyddiwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i bennu cyflog prif swyddogion. Gwnaed hyn yn rhannol mewn ymateb i faterion a godwyd gan y cyhoedd.

Nododd yr adroddiad fod y penderfyniad ar gyflog prif swyddogion, a wnaed ym mis Medi 2012, yn anghyfreithlon am sawl rheswm.

Cafodd yr adroddiad gryn sylw yn y cyfryngau ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol gan y Cyngor ym mis Ebrill 2013. Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad yn unfrydol gan gynnwys yr argymhellion ynddo a'r cynllun gweithredu a gyflwynwyd i'r Prif Weithredwr Dros Dro.

Mae gwersi i'w dysgu ar gyfer pob corff cyhoeddus i sicrhau bod prosesau penderfynu priodol yn cael eu dilyn, yn enwedig o ran materion sensitif fel uwch gyflogau.

## Bwrdd Draenio Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg - adroddiad er budd y cyhoedd

Yn ystod 2011, codwyd nifer o bryderon ynghylch gweithrediad y Bwrdd gan gyn-swyddogion a chyn-aelod o'r Bwrdd. Penderfynwyd y dylid ymchwilio i sawl mater a godwyd.

Ym mis Hydref 2012, cafodd canlyniadau ein hymchwiliad eu cyhoeddi mewn adroddiad er budd y cyhoedd. Daethom i'r casgliad nad oedd y Bwrdd Draenio wedi cyrraedd y safonau y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w disgwyl gan gorff cyhoeddus ac roedd wedi anghofio mai corff cyhoeddus ydoedd. Gwnaethom hefyd ddod i'r casgliad nad oedd y Bwrdd wedi cael ei lywodraethu na'i reoli'n effeithiol ers sawl blwyddyn.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at yr angen i bob corff cyhoeddus feddu ar fframwaith llywodraethu cadarn a gweithredu o fewn y fath fframwaith.



# Cynnig cipolwg

Yn yr adran hon, rhown rai enghreifftiau o'r meysydd lle rydym wedi cynnig cipolwg defnyddiol yn 2012-13 o'r graddau y caiff adnoddau eu defnyddio'n dda i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

# Astudiaeth argyfyngau sifil

Gall argyfyngau sifil fod yn ddigwyddiadau trychinebus sy'n arwain at farwolaethau ac yn achosi difrod difrifol a chost sylweddol i'r economi. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi wynebu nifer o argyfyngau mawr, gan gynnwys llifogydd a thywydd garw, clefydau a phrinder tanwydd. Mae'n anochel y bydd argyfyngau sifil yn digwydd yn y dyfodol ac mae natur ac amlder rhai mathau o argyfyngau sifil yn newid.

Ym mis Rhagfyr 2012, gwnaethom gyhoeddi canlyniadau astudiaeth o effeithiolrwydd trefniadau yng Nghymru i gynllunio at argyfyngau sifil ac ymateb iddynt. Gwelwyd enghreifftiau lle mae'r gwasanaethau brys a sefydliadau eraill wedi arwain ymateb proffesiynol ac effeithiol iawn. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi achosion lle'r oedd y trefniadau cynllunio ac ymateb yn anghyson neu'n annibynadwy, yn hen ac yn aneffeithlon, a thynnwyd sylw at yr angen i sicrhau gwell trefniadaeth ledled Cymru.

Yn ein hadroddiad, tynnwyd sylw at yr angen i egluro rôl a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn well o ran argyfyngau sifil. Ni ddatganolwyd pwerau cyfreithiol yn y maes hwn o Lywodraeth y DU eto. Yn ystod y gwaith yn arwain at gyhoeddi ein hadroddiad, cafwyd trafodaethau cynhyrchiol rhwng Swyddfa Gabinet y DU a Llywodraeth Cymru, sydd wedi egluro rôl bresennol Llywodraeth Cymru o ran argyfyngau sifil a rhoi rhagor o sicrwydd y bydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer argyfwng yn gweithio pan fo angen.

Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac wedi argymell, gan gyfeirio at ein hadroddiad, y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau gweithredol o ran argyfyngau sifil.





Tîm adolygu cyrhaeddiad addysgol: Huw Lloyd Jones, Claire Flood-Page, Carol Moseley ac Alan Morris.

# Adolygiad o gyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal

Mae llawer o blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn cyrraedd safonau addysgol isel iawn sy’n amharu ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Cynhaliwyd adolygiad i ystyried a oedd y camau a gymerwyd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddigon i wella canlyniadau addysgol y grŵp hwn o bobl ifanc yn sylweddol. Gwnaethom weithio gyda grŵp o awdurdodau lleol, ynghyd â rheoleiddwyr a sefydliadau eraill, er mwyn ystyried trefniadau presennol a nodi arfer da.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cyfrannu at beth gwelliant ond nad oeddent wedi pennu’r canlyniadau roeddent yn gobeithio eu cyflawni ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Nid oedd ganddynt gynllun gwella a rannwyd ac er bod cyrhaeddiad yn gwella’n araf, roedd gormod o amrywiad rhanbarthol ac roedd gwendidau mewn data yn amharu ar waith monitro.

Cafodd yr adroddiad ar ein canfyddiadau ei gyhoeddi ym mis Awst 2012 a thynnodd sylw at arfer da mewn rhai rhannau o Gymru yn ogystal â’r Alban. Gwnaed argymhellion i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio a datblygu cynlluniau cliriach a meithrin dealltwriaeth o effeithiolrwydd eu gwaith.

Gwnaethom hefyd nodi ffyrdd y gallai’r partïon gwahanol dan sylw gydweithio’n fwy effeithiol er mwyn gwella cyfleoedd mewn bywyd plant a phobl ifanc y mae awdurdodau lleol yn eu rhianta.

Cafodd ein hadroddiad gryn sylw yn y wasg ac fe’i croesawyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a ddywedodd y byddai’n rhoi ‘ffocws’ i’r mater a’i fod yn faes sy’n parhau i beri pryder. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ymateb i’r adroddiad a’n hargymhellion ac mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried gwneud rhywfaint o waith dilynol.

# Cyllid iechyd

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddwyd adroddiad sef *Cyllid Iechyd*, a dynnodd sylw at y pwysau ariannol nas gwelwyd o'r blaen ar y GIG yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y modd roedd cyrff y GIG wedi ymdopi o fewn eu cyllidebau dyranedig yn y gorffennol ac ar yr heriau ariannol maent yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol.

Mae ein gwaith ar gyllid iechyd wedi helpu i lywio trafodaeth gyhoeddus am yr heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn lleol, a'r opsiynau sydd ar gael i ateb yr heriau hynny. Mae Aelodau'r Cynulliad yn cyfeirio'n fynych at ein gwaith mewn dadleuon cenedlaethol ynghylch helpu'r GIG i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac ad-drefnu gwasanaethau'r GIG. Ar wefannau rhai o fyrddau iechyd De Cymru, rhoddwyd fideo o'r Archwilydd Cyffredinol yn trafod *Cyllid Iechyd* fel modd i gynnwys staff a'r cyhoedd yn yr heriau a wynebir gan fyrddau iechyd a'r angen am newid.

Yn ogystal â chynnig cipolwg i ategu trafodaeth gyhoeddus, mae ein hadroddiad wedi sbarduno gwelliannau i gyfundrefn ariannol cyrff iechyd. Yn sgil cyhoeddi ein hadroddiad, bu cydnabyddiaeth gynyddol y gallai'r gofyniad cyfreithiol i fyrddau iechyd fantoli'r gyllideb bob blwyddyn fod wedi annog ffocws byrdymor nad oedd o fudd. Yn unol â'n hargymhellion, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diwygio'r gyfundrefn ariannol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i fyrddau iechyd ac mae'n ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i gynnig ateb hirdymor.

Byddwn yn llunio adroddiad arall ar gyllid iechyd yn ystod haf 2013, gan fod systemau rheoli ariannol yn dal i fod yn her a sbardun pwysig iawn i'r GIG. Byddwn yn edrych yn fanwl ar yr hyn a ddigwyddodd i wariant iechyd yn ystod 2012-13 a chanlyniadau'r camau a gymerwyd gan gyrff y GIG wrth iddynt geisio mantoli'r gyllideb wrth ddarparu gwasanaethau i gleifion.



## Cyfrannu at ailgylchu gwastraff

Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddwyd canlyniadau astudiaeth genedlaethol o gyfranogiad y cyhoedd at ailgylchu gwastraff. Fel rhan o'n hastudiaeth, ystyriwyd dulliau o gasglu gwastraff y gellir ei ailgylchu wrth ymyl y ffordd gan drigolion, gan gynnwys casglu gwastraff cymysg a gwastraff wedi'i wahanu. Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell y dylai awdurdodau lleol barhau i gael y rhyddid i gasglu gwastraff y gellir ei ailgylchu mewn unrhyw ffordd sy'n effeithiol, yn gynaliadwy ac yn cynnig gwerth am arian o ran effeithlonrwydd y gwasanaeth a'r defnydd o adnoddau gwastraff.

Pan gyhoeddwyd ein hastudiaeth genedlaethol, roedd grŵp o sefydliadau ailgylchu o blaid didoli wrth ymyl y ffordd yn ceisio adolygiad barnwrol, gan honni, wrth ddrafftio deddfwriaeth, fod Cymru a Lloegr wedi trawsnodi Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE yn anghywir. Petai'r adolygiad barnwrol wedi cefnogi'r dehongliad hwn, byddai wedi golygu bod yn rhaid i'r nifer fawr o awdurdodau lleol sy'n casglu gwastraff cymysg ar hyn o bryd er mwyn cyflawni cyfraddau ailgylchu uchel newid i gasglu gwastraff wedi'i ddidoli wrth ymyl y ffordd erbyn 2015. Byddai'r newidiadau hyn wedi arwain at gostau ychwanegol fwy na thebyg a gallent fod wedi lleihau cyfranogiad y cyhoedd.

Cafwyd dyfarniad llys ar 6 Mawrth 2013, lle cafodd yr achos ei ddiystyried. Roedd dyfarniad y llys yn adlewyrchiad da o gasgliadau ein hastudiaeth ac, yn amodol ar fodloni canllawiau a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ar ansawdd gwastraff y gellir ei ailgylchu, mae'n paratoi'r ffordd i awdurdodau lleol yng Nghymru fwrw ati i gynyddu cyfraddau ailgylchu.

## Cymorth i bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol

Yn ogystal â'n cefnogaeth barhaus i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2012-13, darparodd ein staff fewnbwn i gefnogi gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol gan gynnwys:

- ymholiadau'r Pwyllgor Cyllid o ran Cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru a rheoli asedau;
- pennu cwmpas ymchwiliad i reoli gwastraff gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd;
- gwaith craffu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) a'i ymchwiliad i addasu cartrefi.

# Hyrwyddo gwelliant

Yn yr adran hon, tynnwn sylw at achosion yn ystod 2012-13 lle rydym wedi nodi a hyrwyddo ffyrdd o wella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

# Rheoli grantiau

Mae grantiau yn bwysig iawn yng Nghymru. Mae'r sector cyhoeddus yn gwneud defnydd mawr o gynlluniau grant er mwyn ceisio dwyn buddiannau i bobl a chymunedau mewn angen. Nododd ein hadroddiad *Rheoli Grantiau yng Nghymru,* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, fod llawer o gynlluniau grant yn cael eu rheoli'n wael, mai anaml y dysgir gwersi a bod cyllidwyr yn aml yn methu â mynd i'r afael â pherfformiad gwael y rhai sy'n derbyn grantiau.

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad, cynhaliwyd dwy seminar dysgu a rennir gennym ym mis Mehefin 2012 ar gyfer swyddogion datblygu ac adfywio cymunedol llywodraeth leol a'u cymheiriaid yn y sector gwirfoddol o'r cynghorau gwirfoddol sirol. Defnyddiodd y seminarau hyfforddwyr arbenigol i roi cyngor ar brosesau llywodraethu grantiau da, gwaith monitro a gwerthuso effeithiol a chyflwyno adroddiadau ar effaith gweithgareddau a ariennir gan grantiau.

Dyfyniadau adborth gan gynadleddwyr:

> *'Helpodd ni i ddatblygu dull symlach o reoli grantiau.'*
>
> *'Cafodd cysylltiadau newydd eu meithrin i'n helpu i gydweithio a gwella ceisiadau grant.'*


Gwnaethom hefyd lunio amrywiaeth o allbynnau i ategu'r seminarau, a rannwyd drwy'r Gyfnewidfa Arfer Da, gan gynnwys:

- y 'cylch bywyd grantiau' - darlun o gamau allweddol yn y broses o reoli grant;
- enghreifftiau o arfer da astudiaethau achos;
- ystod eang o ddolenni i ganllawiau a phecynnau cymorth.

Roedd llawer o gynadleddwyr am gael cyngor ar amrywiaeth o faterion rheoli grantiau. Bu modd i ni baru'r sawl a oedd yn holi â chyd-ymarferwyr â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol.

Cysylltwyd â phawb a ddaeth i'r seminarau rai misoedd yn ddiweddarach er mwyn adolygu'r effaith ar eu sefydliadau ac arferion gwaith. Roedd y rhan fwyaf wrthi'n defnyddio'r adnoddau a ddarparwyd gennym, neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol agos, ac roeddent yn awyddus i fynd i ddigwyddiadau dysgu a rennir pellach.

Yn dilyn y seminarau, cynhaliwyd sesiwn friffio arbennig ar gyfer 40 o uwch reolwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r materion a godwyd a hefyd gyflwyno ein canfyddiadau yn eu Huwchgynhadledd Grantiau yn ystod hydref 2012. Rydym yn parhau i fynychu bwrdd prosiect Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli grantiau a chyfnewid gwybodaeth am arfer da â'i 'Thîm Canolfan Ragoriaeth'.



Cafodd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), elusen gofrestredig, dros £7 miliwn mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill rhwng 2000 a 2011. Roedd £3 miliwn arall wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau tan ganol 2014.

Ddiwedd 2011, codwyd pryderon ynghylch systemau llywodraethu, rheoli ariannol, staffio ac adnoddau dynol AWEMA, ynghyd â gweithgarwch troseddol posibl. Yn dilyn ymchwiliad ar y cyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr, a nododd wendidau sylweddol a sylfaenol, gwnaethom gynnal astudiaeth i bennu p'un a oedd Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei chydberthynas ag AWEMA yn briodol er mwyn diogelu arian cyhoeddus a gwneud defnydd da ohono.

Gwelwyd bod prosesau rheoli a chydgysylltu Llywodraeth Cymru o ran yr arian hwnnw wedi bod yn wan yn aml a bod ei hymateb i bryderon blaenorol wedi bod yn rhy gul ei ffocws. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarn i'r pryderon a godwyd ynghylch AWEMA ddiwedd 2011.

Mae ymchwiliadau'r Heddlu a'r Comisiwn Elusennau i'r sefyllfa yn AWEMA yn mynd rhagddynt.



Tîm astudio AWEMA: Emma Giles, Phil Pugh, Mark Jones, Mark Jeffs a Mike Usher.

# Tryloywder a bod yn agored i her mewn llywodraeth leol

Yn ystod 2012-13, cynhaliwyd astudiaeth o'r graddau y mae gwaith herio a chraffu yn effeithiol mewn llywodraeth leol ac adolygwyd dulliau o baratoi datganiadau llywodraethu blynyddol gan awdurdodau lleol.

Mae gan waith craffu a herio ran allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo gwelliant, arbedion effeithlonrwydd a chydweithredu mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn ein hastudiaeth ar gyfer 2012-13, gwnaethom weithio gyda'r sector llywodraeth leol i wella gwaith craffu ymhellach drwy raglen archwilio.

Roedd y rhaglen yn wahanol i archwiliad traddodiadol am ei bod yn canolbwyntio ar ddysgu a rennir mewn amser real gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys gweithdai rhyngweithiol, hunanwerthusiadau ac arsylwadau gan gyfoedion.

Gwnaethom hefyd weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartneriaid i lunio set gytûn derfynol o nodweddion allweddol gwaith trosolwg a chraffu effeithiol a all gael ei ddefnyddio'n fynych gan bob ymarferydd, rhanddeiliad a chorff adolygu allanol.

Caiff adroddiad cryno cenedlaethol ar ein canfyddiadau ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2013. Bwriedir cynnal digwyddiadau dysgu a rennir hefyd, ynghyd â chynhadledd genedlaethol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

Ers blwyddyn ariannol 2010-11, bu'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiad llywodraethu blynyddol ar sail adolygiad o'u fframwaith llywodraethu. Edrychodd adolygiad 2012-13 ar effeithiolrwydd adolygiadau awdurdodau o systemau llywodraethu.

Canolbwyntiwyd ar nodi pwyntiau dysgu i awdurdodau eu hystyried wrth iddynt adolygu systemau llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol:

- pennu'r lefel ofynnol o sicrwydd;
- sicrhau bod y lefel ofynnol o sicrwydd yn cael ei darparu;
- codi ymwybyddiaeth ymhlith y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau.

Yn 2013, byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ar ffurf nodyn ymarfer. Bydd y nodyn yn crynhoi'r pwyntiau dysgu allweddol ac yn nodi'r camau y bydd angen i awdurdodau eu cymryd i sicrhau bod adolygiadau o drefniadau llywodraethu mor effeithiol â phosibl. Bwriedir cynnal cyfres o seminarau dysgu a rennir hefyd.



# Caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

Mae gwasanaethau ymgynghori yn faes gwariant uchel o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru; yn 2010-11, gwariodd cyrff cyhoeddus yng Nghymru gyfanswm o £133 miliwn ar wasanaethau ymgynghori. Ym mis Chwefror 2013, gwnaethom nodi pa mor dda yr oedd cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori.

Roedd ein meini prawf archwilio yn seiliedig ar arfer da sefydledig gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a hen Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Edrychwyd ar ba mor dda y mae cyrff cyhoeddus mewn sectorau gwahanol yn cyflawni arfer da wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori fel rhan o brosiect nodweddiadol.

Daethom i'r casgliad, er bod cyrff cyhoeddus wedi lleihau eu gwariant ar ymgynghorwyr, o £173 miliwn yn 2007-08 i £133 miliwn yn 2010-11, na allant ddangos gwerth da am arian wrth gynllunio, caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Y rheswm dros hyn yw bod y graddau y gwnaeth cyrff cyhoeddus gyrraedd safonau arfer da a dderbynnir yn gyffredinol ar gamau caffael a rheoli ymgynghorwyr gwahanol yn amrywio'n sylweddol. Amcangyfrifwn y gellir arbed dros £23 miliwn petai pob corff cyhoeddus yn dilyn arfer da, yn enwedig wrth asesu anghenion, nodi gofynion ac ystyried dewisiadau amgen i ddefnyddio ymgynghorwyr.

Er i'n hadroddiad ganolbwyntio ar gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, mae'r egwyddorion arfer da a gaiff eu hyrwyddo yn yr adroddiad yr un mor gymwys i reoli'r gwaith o gaffael pob math o nwyddau a gwasanaethau.

## Seminarau dysgu a rennir gweithio ystwyth

Mae gweithio ystwyth yn ymwneud â dwyn ynghyd bobl, prosesau, cysylltedd a thechnoleg, amser a lle er mwyn canfod y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o weithio. Mae'n golygu gweithio o fewn canllawiau (y dasg) ond heb ffiniau (o ran y modd y cyflawnir hynny).[17]

Cynhaliwyd dwy seminar dysgu a rennir ar weithio ystwyth ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chwarae Teg ym mis Ionawr 2013. Nodau'r seminarau oedd cynyddu ymwybyddiaeth o fuddiannau gweithio ystwyth a phwysigrwydd ymddiried mewn cyflogeion a rhannu'r cysyniad bod gweithio ystwyth yn mynd y tu hwnt i weithio hyblyg traddodiadol ar gyfer unigolion.

Daeth cyfanswm o 53 o bobl i'r seminarau, gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, y GIG, llywodraeth ganolog a'r trydydd sector. Bu'r seminarau yn sail ar gyfer datblygu rhwydwaith cadarn o ymarferwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a rhoddwyd allbynnau ar wefan y Gyfnewidfa Arfer Da.

## Cydweithio a gwaith rhyngwladol

Rydym yn ymrwymedig i gydweithio ag asiantaethau archwilio cenedlaethol y DU ac adeiladu ar y cydweithrediad sydd eisoes yn digwydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus. Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda chydweithwyr yn Audit Scotland, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, y Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gydbrosiectau ac er mwyn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom barhau i weithio'n agos â'r tri phrif gorff arolygu, archwilio a rheoleiddio arall yng Nghymru – Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – a hefyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch strwythurau newydd yr heddlu.

O bryd i'w gilydd rydym yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol mewn perthynas â'n gwaith. Mae ein gwaith rhyngwladol hefyd yn rhoi cyfle i ni ddatblygu ein gwybodaeth am dechnegau cyfrifyddu ac archwilio ymhellach a meithrin sgiliau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein gwaith. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny gefnogi ein strategaeth fusnes, y dylent fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

Gweithiodd dau o'n staff gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2012-13 ar archwiliad o sefydliadau'r Cenhedloedd Unedig. Gweithiodd y ddau aelod o staff ar nifer o aseiniadau mewn sawl gwlad fel rhan o gytundeb yn y tymor hwy i gefnogi'r gwaith hwn.

17 Ffynhonnell: Gwefan The Agile Organisation



Grŵp Technegol Archwilio Ariannol: Mike Usher, Hefin Davies, Terry Jones, Jayne Elms, Iolo Llewelyn, Deryck Evans, Clare Stevens, Chris Pugh, Kate Harvard a Nick Davies.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymsefydlu fel asiantaeth archwilio sector cyhoeddus sydd â sgiliau y gellir eu trosglwyddo i wledydd eraill. Ym mis Mawrth 2013, ymwelodd dirprwyaethau o nifer o endidau sector cyhoeddus o dramor, gan gynnwys Bwlgaria, yr Aifft, Ghana, Liberia, y Philippines, Rwsia a Swaziland, â'n swyddfeydd er mwyn cael gwybod am drefniadau llywodraethu yng Nghymru a sut rydym yn cynnal gwaith archwilio cyhoeddus.

Gwnaethom hefyd:

- ddarparu hyfforddiant ar gyflwyno adroddiadau ariannol i Lywodraeth ac Archwilydd Cyffredinol Ynysoedd y Caiman;
- rhoi cyflwyniad ar ein dull o sicrhau ansawdd yng nghynhadledd flynyddol Sefydliad Ewropeaidd Sefydliadau Archwilio Cyllid Cyhoeddus Allanol Rhanbarthol (EURORAI);
- rhoi cyflwyniad i lywodraeth leol Iwerddon ar agweddau ar ein dull archwilio.

Caiff safonau cyfrifyddu ac archwilio eu trefnu ar sail fyd-eang erbyn hyn. Yn ystod 2012-13, gwnaethom ymateb i ddau ymgynghoriad rhyngwladol ar y safonau hynny, gan helpu i lywio datblygiad gwaith cyfrifyddu a gwaith archwilio cyhoeddus ar y llwyfan ehangach yn y dyfodol.

# Rhedeg y busnes

Yn yr adran hon amlinellwn yr hyn rydym wedi'i wneud yn 2012-13 i adeiladu ar ein gwaith o fod yn sefydliad atebol ac effeithlon a reolir yn dda sy'n darparu amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol.

Rydym yn ymrwymedig i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol o ran y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes (ac fel rhan o'n holl waith archwilio). Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i gynnwys datblygu cynaliadwy ymhellach yn y ffordd rydym yn cynnal ein busnes mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

# Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Caiff ein gwaith ei ariannu gan amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, arian gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy Gronfa Gyfunol Cymru a chyfraniadau gan gwmnïau contractwyr. Defnyddiwn y cronfeydd hyn i dalu staff a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Gwnaed gwelliannau sylweddol i'n trefniadau rheoli ariannol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod 2012-13, darparwyd hyfforddiant rheoli ariannol ar gyfer y sefydliad cyfan a gwnaed gwelliannau i'r wybodaeth reoli a roddir i ddeiliaid cyllideb ac uwch reolwyr. Rydym hefyd wedi llunio strategaeth ariannol tymor canolig.

Nodwyd yn flaenorol[18] fod trafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) wedi bod yn mynd rhagddynt ers nifer o flynyddoedd ynglŷn â statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol. Yn 2011-12, neilltuwyd £2.4 miliwn, yn seiliedig ar gyngor ariannol allanol, o ran rhwymedigaethau TAW hanesyddol posibl. Ym mis Rhagfyr 2012, cawsom ddyfarniad gan CThEM sydd wedi cadarnhau'r gyfundrefn TAW a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2013 ac na fydd unrhyw rwymedigaeth hanesyddol. Yn seiliedig ar hyn, bu modd rhyddhau'r ddarpariaeth a neilltuwyd yn 2011-12 i gyfrifon 2012-13. O ganlyniad i'r dyfarniad ni fyddwn yn codi TAW ar ffioedd am waith archwilio llywodraeth leol neu'r GIG o 1 Ebrill 2013 ymlaen, a bydd cynnydd o tua £600,000 y flwyddyn yn y TAW anadenilladwy a godir arnom ar nwyddau a gwasanaethau.

Ein nod yw talu 95 y cant o anfonebau cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o'u derbyn, yn seiliedig ar fonitro taliadau yn barhaus. Yn y flwyddyn ariannol 2012-13 gwnaed 97 y cant o daliadau o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr anfoneb (o'i gymharu â 98 y cant yn 2011-12).

Mae'n ofynnol i gyrff yn y sector cyhoeddus ddangos effeithlonrwydd a gwerth am arian, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn eithriad yn hyn o beth. Rydym yn ymrwymedig i arwain drwy esiampl ac i adolygu a herio ein gwariant a'n harferion gwaith drwy'r amser er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith mewn ffordd effeithlon a chosteffeithiol.

18 Yn ein hamcangyfrifon blynyddol cyhoeddedig o incwm a threuliau'r Archwilydd Cyffredinol.




# Cydraddoldeb, amrywiaeth ac urddas yn y gwaith

Mae ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb. Mae'r Cynllun yn nodi sut rydym yn ceisio dileu gwahaniaethu, datblygu cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da yn ein gwaith a'n gweithgareddau beunyddiol[19]. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb (ein staff ein hunain a'r rheini rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith) ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Yn 2012-13, gwnaethom ddatblygu pecyn e-ddysgu ar y cyd â'n partneriaid arolygu – Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru – er mwyn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb ymhlith ein staff. Roedd y dull cyflenwi amlgyfrwng yn greadigol ac yn ymgysylltiol a rhoddodd yr hyblygrwydd i staff ddewis pryd a sut i gwblhau'r cwrs.

Cafodd sesiynau 'dysgu amser cinio' eu cynnal yn rheolaidd hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda siaradwyr gwadd yn cynnwys cynrychiolwyr o Stonewall Cymru, Anabledd Cymru ac Age Cymru. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chynrychioli yng Ngrŵp Rhwydwaith Cyfnewid Cydraddoldeb Cymru Gyfan - fforwm i rannu gwybodaeth ac arfer da.

Mae adroddiad llawn ar ein cynnydd o ran amrywiaeth a chydraddoldeb ar gyfer 2011-12 ar gael ar ein gwefan; caiff adroddiad tebyg ar gyfer 2012-13 ei gyhoeddi'n fuan.

19 Am ragor o wybodaeth, gweler ein *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* ar ein gwefan.

## Gwarchod yr amgylchedd

Yn 2012-13, cawsom achrediad Lefel 4 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, yn sgil y gwaith o ddatblygu ymhellach ein prosesau a'n gweithdrefnau rheoli amgylcheddol a chynnal rhaglen o sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i staff.

Hefyd:

- rydym bellach yn gweithredu hierarchaeth deithio, sy'n golygu ein bod yn ystyried pob ffordd bosibl o wneud ein busnes, lle mai teithio yw'r opsiwn olaf;
- rydym wedi gostwng terfyn allyriadau $CO_2$ ceir newydd yn ein cynllun ceir i 135 g/km, gyda'r nod o ostwng y terfyn hwn o leiaf 5 g/km arall yn ystod y flwyddyn nesaf;
- rydym wedi buddsoddi mewn unedau fideo-gynadledda pellach ac wedi cynyddu eu defnydd 25 y cant er mwyn cefnogi gweithio ystwyth a lleihau'r angen i deithio;
- rydym wedi cynyddu cyfleusterau ailgylchu yn ein prif swyddfeydd.

## Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal[20]. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog ac rydym yn delio â chyrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.

Yn 2012-13, cynhaliwyd dau arolwg mewn perthynas â'r Gymraeg. Sefydlodd un arolwg ddewis iaith y cyrff a archwilir gennym. Nododd y rhan fwyaf o gyrff y byddai'n well ganddynt i ni gyfathrebu â hwy'n ddwyieithog.

Cynhaliwyd arolwg arall ymhlith ein staff, lle gwahoddwyd unigolion i asesu eu hyder yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Cafwyd cyfradd ymateb o 85 y cant i'r arolwg hwn, gyda dros hanner yr ymatebwyr yn nodi diddordeb mewn gwella eu sgiliau Cymraeg ymhellach.

Yn 2013-14, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'r arolygon hyn i sicrhau bod gennym ddigon o staff â'r sgiliau angenrheidiol i fodloni dewis iaith y cyrff a archwilir a chefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg ein staff.

20 Am ragor o wybodaeth, gweler ein *Cynllun Iaith Gymraeg* ar ein gwefan.

# Recriwtio a phrofiad gwaith

Eleni, lluniwyd cynllun strategol ar gyfer y gweithlu sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gennym weithlu hyblyg a all ymateb i newidiadau o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. I gefnogi'r cynllun hwn, cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd recriwtio mewnol ac allanol yn 2012-13, yn cynnwys rhai ar gyfer staff â chymwysterau proffesiynol er mwyn helpu i gyflawni ein gwaith.

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion a thechnegwyr. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol, anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Yn 2012-13, gwnaethom benodi dau hyfforddai archwilio a phedwar technegydd archwilio, sydd bellach wedi dechrau ar eu hastudiaethau.

Mae'r holl hyfforddeion a thechnegwyr a gafodd eu recriwtio yn 2011-12 wedi pasio eu harholiadau cyntaf ac yn parhau i wneud cynnydd o ran y cynllun hyfforddi.

Yn ogystal â'u hastudiaethau proffesiynol, rydym yn rhoi hyfforddiant pwrpasol a phrofiad gwaith perthnasol i'r hyfforddeion a thechnegwyr. Yn ystod eu hyfforddiant, maent yn treulio amser yn gweithio gyda thimau archwilio amrywiol, gan wneud cyfraniad allweddol i'n llwyddiant cyffredinol.

Hefyd yn ddiweddar rydym wedi meithrin cysylltiadau â Gyrfa Cymru a phrifysgolion ac ysgolion lleol er mwyn cynnig cyfleoedd profiad gwaith a hyrwyddo gyrfaoedd o fewn Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ystod 2012-13 bu dau fyfyriwr ar leoliad gwaith gyda ni.



Hyfforddeion a thechnegwyr archwilio a benodwyd yn 2012-13: Rhian Phipps, Olivia Hodgson, Thomas Stuttaford, Adam Marshall a Katie Adams.

## Lles cyflogeion a rheoli presenoldeb

Rydym yn ymrwymedig i annog ffordd o fyw iach a chydbwysedd bywyd a gwaith da ymhlith ein staff. Rydym hefyd yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn ofalus a thros y tair blynedd diwethaf rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o ddulliau i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Cafodd 6.7 diwrnod cyflogai eu colli ar gyfartaledd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013; gostyngiad o 30 y cant o'r flwyddyn flaenorol a ffigur sy'n cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd o 7.9 diwrnod fesul cyflogai'r flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i *Arolwg Rheoli Absenoldeb* blynyddol CIPD yn 2012.

Mae llinell radffôn cymorth cyflogeion hefyd ar gael i roi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

## Dysgu a datblygu

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn dysgu a datblygu ein staff er mwyn eu helpu i gyflawni eu gwaith. Yn 2012-13, cynyddwyd nifer y cyrsiau hyfforddi a gynigir a rhoddwyd saith diwrnod hyfforddi i bob cyflogai yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd. Cafodd rhywfaint o'r hyfforddiant ei ddylunio a'i ddarparu'n fewnol, ond lle y bo'n briodol ac yn gosteffeithiol, comisiynwyd hyfforddwyr allanol i roi hyfforddiant yn unol â'n gofynion penodol.

Yn ystod 2012-13, gwnaethom barhau ag ail gam *Ignite,* sef ein rhaglen i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau drwy reoli a chymell timau'n effeithiol, ac mae'n cyfuno seminarau â gwaith maes ar astudiaethau achos. Rydym yn dal i gael adborth cadarnhaol iawn gan y sawl sy'n cymryd rhan yn *Ignite,* ac yn ystod 2013-14 byddwn yn datblygu cam tri a cham terfynol y rhaglen i'w cyflwyno yn 2014.

Parhaodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd i annog a chefnogi staff i wneud cais i gymryd rhan yn ysgolion haf blynyddol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Ar ôl cwblhau adolygiad o'n system arfarnu perfformiad flaenorol, cyflwynwyd cynllun diwygiedig ar ddechrau 2013-14, fel rhan o fframwaith rheoli pobl ehangach.

# Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol fel gwaith gofal yn y gymuned, gwaith amgylcheddol a phrosiectau cadwraeth, codi arian i brosiectau cymunedol ac elusennau, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus. Gall staff hefyd gymryd rhan mewn cynllun 'rhoi wrth ennill'. Yn 2012-13, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau mewnol i godi arian i achosion da. Cyfrannodd dau aelod o'n staff at Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd hynod lwyddiannus haf 2012.




Roedd y Cyfarwyddwr Grŵp, Alan Morris, yn swyddog athletau yn y gemau Olympaidd a Pharalympaidd. Ysgrifennodd Alan flog dyddiol i staff am ei brofiadau.



Roedd Emma Moorhouse, Archwilydd Ariannol, yn aelod o'r tîm trafnidiaeth yn y Gemau Paralympaidd, gan sicrhau fod yr athletwyr a'r swyddogion yn cyrraedd lleoliadau yn ddiogel ac ar amser.

## Gweithio gyda'r trydydd sector

Mae *Ignite,* sef ein rhaglen i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr, yn cynnwys ymarfer astudiaeth achos fyw, lle mae'n rhaid gweithio gydag elusen neu sefydliad arall yn y trydydd sector. Mae'r astudiaeth achos fel arfer yn cynnwys adolygiad dwys o wasanaeth a datblygu atebion i broblemau go iawn.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13, gweithiodd ein staff ar astudiaethau achos gyda Groundwork Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched (WRVS) a'r Prince's Trust.

Cafwyd yr adborth canlynol gan Bennaeth Gweithrediadau Cymru, WRVS:
*'Pleser o'r mwyaf oedd cael gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru fel yr astudiaeth achos ar gyfer ei rhaglen datblygu rheolwyr Ignite a bu'n brofiad cadarnhaol a hynod ddefnyddiol. Roedd y dasg a osodwyd yn heriol – sut i foderneiddio gwasanaeth sydd wedi bodoli ers y 1940au – ond fe'i croesawyd gan y cyfranogwyr a rhoddwyd adborth a chyngor ymarferol ar sut y gellid darparu gwasanaeth ar ei newydd wedd ac effaith debygol hyn ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Er ein bod eisoes wedi darogan y rhan fwyaf o ganlyniadau'r adborth, roedd yn dawelwch meddwl cael tîm proffesiynol annibynnol i gadarnhau bod ein gwasanaethau yn cael eu gwerthfawrogi a'u darparu'n dda. Byddwn yn neidio at y cyfle i fod yn rhan o raglen Ignite yn y dyfodol.'*

Yn ychwanegol at hyn, yn ystod 2012-13 gwnaethom gysylltu ag amrywiaeth o gyrff trydydd sector sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig[21] a cheisiwyd eu barn ar ein strategaeth gorfforaethol a'n rhaglen astudiaethau gwerth am arian drafft.

## Bod yn agored a thryloyw

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd rydym yn gweithredu fel busnes a'r ffordd rydym yn cyfathrebu â'r cyhoedd. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mabwysiadu'r *Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol* a gafodd ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O dan y Cynllun rydym yn ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd – am ragor o wybodaeth gweler ein gwefan.

Yn y flwyddyn ariannol 2012-13 daeth 38 o geisiadau am wybodaeth i law. Trosglwyddwyd un o'r ceisiadau hyn i'r archwilydd penodedig i'w ateb gan nad oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Penderfynodd archwilwyr perfformiad bod un cais yn addas iddynt ymdrin ag ef fel gohebiaeth gyffredinol. O'r 36 cais arall am wybodaeth yr ymdriniwyd â hwy gan Swyddfa Breifat yr Archwilydd Cyffredinol, proseswyd 92 y cant ohonynt o fewn y terfyn amser statudol (ymatebwyd i 100 y cant ohonynt). Cafwyd un cais am adolygiad mewnol. Nid oeddem yn destun unrhyw adolygiadau gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn 2012-13.

21 Y naw nodwedd warchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil; a beichiogrwydd a mamolaeth.

# Ffocws ein gwaith yn y dyfodol


## Strategaeth gorfforaethol 2013-2016

Ym mis Tachwedd 2012, gwnaethom lansio ymgynghoriad eang ar *Strategaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2013-2016.* Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi ein hymateb arfaethedig i'r ffactorau allweddol yn ein hamgylchedd gweithredu dros y tair blynedd nesaf, ynghyd â'n dull o fonitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth a gawsom yn cadarnhau ein prif nod ac amcanion (gweler Arddangosyn 4), ynghyd â'n gwerthusiad o'r prif ddylanwadau amgylcheddol ar y gwaith o ddarparu archwiliadau cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac yn cyd-fynd â'n hymateb arfaethedig (gweler Arddangosyn 5).

Cafodd y strategaeth derfynol ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2013[22], ac mae'n cynnwys crynodebau o'n strategaeth ar gyfer y gweithlu a'n strategaeth ariannol yn y tymor canolig. Caiff y broses o gyflawni'r strategaeth ei hategu gan gynllun busnes tair blynedd sy'n cwmpasu hyd a lled ein gwaith.

22 Am ragor o wybodaeth, gweler *Strategaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2013-2016*, Swyddfa Archwilio Cymru, Ebrill 2013.




Arddangosyn 4: Nod ac amcanion allweddol yn ein strategaeth

| Ffactorau amgylcheddol allweddol | Camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd mewn ymateb |
|---|---|
| Rydym mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol | Cynnal ein gwaith archwilio gan roi pwyslais ar galedi |
| Mae polisi yng Nghymru a pholisi yn Lloegr yn parhau i ymwahanu drwy broses ddatganoli gynyddol | Gwella ein gwaith ar feincnodi a chymharu perfformiad, rhannu gwybodaeth archwilio a chyfnewid arfer da |
| Mae diddordeb yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn cynyddu ac erbyn hyn mae cwmpas ehangach i ofynion adrodd | Rhoi mwy o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a materion eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd |
| Mae dyletswyddau a safonau trawsbynciol, newydd wedi'u cyflwyno yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn parhau i gael eu cyflwyno | Cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar ddatblygu cynaliadwy, ar gydraddoldeb ac ar y defnydd o'r iaith Gymraeg |
| Mae'r dirwedd adolygu allanol yn parhau i ddatblygu | Gweithio'n agosach gyda chyrff adolygu allanol eraill a gwella'r ffordd rydym yn rhedeg ein busnes yn ystod cyfnod pontio |
| Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol | Codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu diddordeb ynddo, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithiol |

Arddangosyn 5: Camau a gymerwn mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu

## Rhaglen gwaith archwilio

Ym mis Mawrth 2013, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol y canlynol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol:

- diweddariad ar raglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith archwilio arall sy'n mynd rhagddo a allai arwain at adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor;
- cyfle i nodi pynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol.

Roedd y papur briffio a roddwyd i'r Pwyllgor yn dangos yr amrywiaeth o waith astudio gwerth am arian a gyflawnir gennym ar hyn o bryd ac y disgwyliwn gyhoeddi adroddiad arno erbyn mis Gorffennaf 2014. Mae'r corff hwn o waith yn ychwanegol at y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad rheolaidd a gyhoeddir yn lleol ar gyfer cyrff unigol a archwilir. Roedd y papur briffio hefyd yn rhestru amrywiaeth o bynciau rydym wedi bod yn eu hystyried o ran astudiaethau gwerth am arian posibl yn y dyfodol.[23]

## Amcangyfrif o incwm a threuliau

Cyflwynwyd *Amcangyfrif o incwm a threuliau swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2014* i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2012. Cafodd yr amcangyfrif ei ardystio gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2012. Yn yr amcangyfrif, nodwyd ein cynigion i:

- barhau i geisio rhagor o arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd lle y bo modd a fydd yn ein helpu i leihau costau ymhellach;
- cynnal lefelau ffioedd cyffredinol 2013-14 ar yr un lefel arian parod â 2012-13, yn dilyn gostyngiadau termau real sylweddol mewn blynyddoedd cynharach;
- buddsoddi £0.5 miliwn ychwanegol, yn benodol ar rannu arfer da a hyrwyddo arloesedd a gwelliant a sicrhau y gallwn ymateb yn brydlon i'r nifer gynyddol o geisiadau am ymchwiliadau arbennig a gwaith ad hoc heb unrhyw oedi i'n rhaglen astudiaethau a gynlluniwyd ymlaen llaw;
- ceisio arian ar gyfer y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)[24] mewn amcangyfrif atodol ar gyfer 2013-14.

23 Am ragor o wybodaeth, gweler *Rhaglen astudiaethau gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru: Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; Swyddfa Archwilio Cymru,* Mawrth 2013.

24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 bellach; cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

## Archwiliadau o ddatblygu cynaliadwy

Mewn papur gwyn diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i ddeddfu er mwyn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol. Mae hefyd wedi amlinellu ei chynigion i roi rôl statudol i'r Archwilydd Cyffredinol o ran archwilio ymateb y sector cyhoeddus i'r ddyletswydd hon.

Ar hyn o bryd, fe'n cynrychiolir (â statws arsylwi) ar Grŵp Cyfeirio Allanol Bil Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi cytuno i greu is-grŵp i edrych ar brosesau craffu ac adrodd yn y sector cyhoeddus, yng nghyd-destun y ddyletswydd arfaethedig.

Caiff cynllun gweithredu dwy flynedd ei lunio i gefnogi'r gwaith o ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein holl waith.

# Datganiad cyfrifon

## Adroddiad Cydnabyddiaeth

### Polisi cydnabyddiaeth

#### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, daw o Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff manylion cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn.

#### Aelodau anweithredol pwyllgorau

Caiff cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd Cysgodol, y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Adnoddau ei phennu gan yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r gydnabyddiaeth hon yn bensiynadwy.

#### Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â deddfwriaeth caniateir i'r Archwilydd Cyffredinol benodi unrhyw staff sydd eu hangen yn ei farn ef i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ei phennu gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff telerau cydnabyddiaeth staff eraill Swyddfa Archwilio Cymru eu pennu gan Bwyllgor Gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru. Ymgynghorir ag undebau llafur ynghylch cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn unol â chydgytundeb.

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

### Manylion taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r adrannau canlynol yn nodi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheolwyr ar y lefelau uchaf (h.y. aelodau'r Pwyllgor Gweithredol) yn Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd ag aelodau o bwyllgorau anweithredol.

#### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Codir costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid Swyddfa Archwilio Cymru sy'n eu talu. Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi'r Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu.

Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2012-13 oedd £150,000 (2011-12: £150,000) a chost pensiwn y cyflogwr oedd £21,675 (2011-12: £20,700).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrannu at gyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Gwnaed cyfanswm o £24,973 o gyfraniadau i'r cyfrif hwn yn ystod 2012-13 (gan gynnwys £21,675 gan y cyflogwr a £3,298 gan yr aelod) (2011-12: £22,425 yn cynnwys £20,700 gan y cyflogwr a £1,725 gan yr aelod).

Caiff y wybodaeth ganlynol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ei harchwilio.

## Uwch reolwyr

Caiff y Pwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ystod 2012-13 roedd yn cynnwys y canlynol:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i'r swydd | Dyddiad gorffen | Contract |
|---|---|---|---|---|
| **Gillian Body** | 02/09/1981 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |
| **Anthony Barrett** | 24/01/2001 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |
| **Kevin Thomas** | 26/10/1992 | 01/12/2009 | Dd/G | Parhaol |

Adolygir perfformiad pob un o aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn rheolaidd. Y cyfnod rhybudd i bob aelod yw 12 wythnos. Pe byddai contract unigolyn yn cael ei derfynu'n gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai'n cael iawndal am golli ei swydd.

## Manylion taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi gwybodaeth am gydnabyddiaeth mewn perthynas ag aelodau'r Pwyllgor Gweithredol.

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013 | | | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn da | Treuliau trethadwy | Cyfanswm | Cyfraniad pensiwn | Cyflog | Buddiannau mewn da | Treuliau trethadwy | Cyfanswm | Cyfraniad pensiwn |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 |
| Gillian Body | 115-120 | 0 | 0 | 115-120 | 27.5-30.0 | 115-120 | 0 | | 115-120 | 27.5-30.0 |
| Anthony Barrett | 110-115[1] | 4,500 | 13,300 | 130-135 | 27.5-30.0 | 110-115 | 5,000 | 14,900 | 130-135 | 27.5-30.0 |
| Kevin Thomas | 105-110[2] | 4,200 | 15,000 | 120-125 | 25.0-27.5 | 100-105 | 4,100 | 17,500 | 120-125 | 22.5-25.0 |
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (£'000) | | | 130-135 | | | | | 130-135 | | |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (£)[3] | | | 45,964 | | | | | 46,347[3] | | |
| Cymhareb cydnabyddiaeth | | | 2.870 | | | | | 2.877[4] | | |

1 Mae cyflog Mr Barrett wedi gostwng £425 (£522 yn 2011-12) mewn perthynas â chynllun prynu talebau gofal plant drwy aberthu cyflog. Mae gwerth y talebau hyn wedi'i nodi mewn adroddiad ar wahân fel buddiannau mewn da.

2 Mae cyflog Mr Thomas yn cynnwys cydnabyddiaeth ychwanegol o £1,758 a dderbyniwyd mewn perthynas â gwyliau (£1,726 yn 2011-12) a werthwyd o dan gynllun gwerthu a phrynu gwyliau Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Mae cydnabyddiaeth canolrifol ar gyfer 2011-12 wedi'i hailddatgan er mwyn cynnwys cyflog, lwfansau a buddiannau mewn da.

4 Ailddatganwyd fel yn nodyn 3 uchod.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddatgelu cyflog yr Archwilydd Cyffredinol gan ei fod yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac nid Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, £150,000 oedd cyfanswm ei gydnabyddiaeth, sef 3.263 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol Swyddfa Archwilio Cymru (2011-12: £150,000, cymhareb 3.236).

## Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i’r graddau ei fod yn destun trethiant yn y DU. Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gofnodwyd felly yn y cyfrifon hyn.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae buddiannau mewn da wedi’u hailddatgan ar gyfer 2011-12 er mwyn cynnwys gwerth talebau gofal plant a brynwyd drwy gynllun aberthu cyflog.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu budd-dal marwolaeth mewn gwasanaeth sy’n cyfateb i flwyddyn o gyflog ar gyfer unrhyw aelod o staff sy’n marw tra’i fod yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cost flynyddol y cynllun hwn yn 2012-13 oedd £12,658 (2011-12: £13,734). Polisi yswiriant grŵp yw hwn ac fel y cyfryw ni ellir ei briodoli’n uniongyrchol i unrhyw aelod penodol o staff ac felly caiff ei eithrio o’r tabl uchod.

Ni thalwyd bonysau i unrhyw aelodau o’r Pwyllgor Gweithredol.

## Treuliau trethadwy

Fel y datgelwyd yn Nodiadau 15 a 19 ac y trafodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae’r cyfrifon yn cynnwys darpariaeth a rhwymedigaeth wrth gefn ar gyfer setliad TWE posibl gyda CThEM oherwydd nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithredu TWE mewn perthynas â rhai treuliau a dalwyd i rai grwpiau o staff hyd at 2012-13. Mae’r ddarpariaeth yn cynnwys trethiant a chyfraniadau yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i Kevin Thomas ac Anthony Barrett ar gyfer teithio i’w prif fan gwaith, ac ar gyfer 2011-12 roedd hefyd yn cynnwys tâl graddfa tanwydd. Datgelir gwerth y taliadau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl uchod a gwneir y taliadau priodol i CThEM.

## Manylion pensiwn uwch reolwyr

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2013 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2013 | CETV ar 31 Mawrth 2012 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf |
| Gillian Body | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 160-165 | 0-5 ynghyd â chyfandaliad o 0-5 | 1,003 | 928 | 23 | 0 |
| Anthony Barrett | 30-35 | 0-5 | 454 | 383 | 31 | 0 |
| Kevin Thomas | 40-45 | 0-5 | 515 | 461 | 25 | 0 |

### Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod yn aelodau o un o bedwar cynllun buddiannau diffiniedig: naill ai cynllun cyflog terfynol ('classic', 'premium' neu 'classic plus'), neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu ac mae'r Senedd yn pleidleisio ar gostau'r buddiannau a delir drwy gronfeydd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau 'classic', 'premium', 'classic plus' a 'nuvos' eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y cynnydd mewn pensiynau. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyflogeion yn talu cyfraniadau sy'n gysylltiedig â chyflog ac ar gyfer 2012-13 roeddent yn amrywio rhwng 1.5 y cant a 3.9 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun 'classic' a rhwng 3.5 y cant a 5.9 y cant ar gyfer y cynlluniau 'premium', 'classic plus' a 'nuvos'. Bydd cyfraniadau cyflogeion yn cynyddu o 1 Ebrill 2013. Mae buddiannau yn y cynllun 'classic' yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun 'premium'. Yn wahanol i'r cynllun 'classic', ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun 'classic plus' yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun 'classic' a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun 'premium'. Bydd aelod o gynllun 'nuvos' yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r

cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y cynnydd mewn pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn rhoi swm cyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. 60 oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau 'classic', 'premium' a 'classic plus' a 65 oed ar gyfer aelodau cynllun 'nuvos'.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservice.gov.uk/pensions.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu buddiannau pensiwn ychwanegol gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol pwyllgorau

| | Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | | Pwyllgor Adnoddau | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012-13 | 2011-12 | 2012-13 | 2011-12 | 2012-13 | 2011-12 | 2012-13 | 2011-12 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Cadeirydd y Bwrdd Cysgodol** | | | | | | | | |
| Deep Sagar[1] | | | | | | | 3,685 | |
| **Aelodau'r pwyllgor** | | | | | | | | |
| Rosamund Blomfield-Smith | | 1,250 | 7,000 | 5,083 | | | 7,000 | 6,333 |
| Dr Michael P Brooker | | 1,250 | | | 7,000 | 5,083 | 7,000 | 6,333 |
| Steven Burnett | | | | | 5,000 | 3,750 | 5,000 | 3,750 |
| Mary Champion | | | | | 5,000 | 3,750 | 5,000 | 3,750 |
| Yr Athro David Hands | | 3,804 | | | | | | 3,804 |
| Christine Hayes[2] | 2,487 | | | | | | 2,487 | |
| Dr Elizabeth Haywood | | | 5,000 | 3,750 | | | 5,000 | 3,750 |
| Michael Heap | | | 5,000 | 3,750 | | | 5,000 | 3,750 |
| Peter Laing[3] | 3,664 | 7,250 | | | | | 3,664 | 7,250 |
| Gilbert Lloyd[4] | 5,393 | | | | | | 5,393 | |
| Denver Lynn[5] | | | | | | | | |
| Dr Arun Midha | | | | | 5,000 | 3,750 | 5,000 | 3,750 |
| Y Canon David Stanton | | | 5,000 | 3,750 | | | 5,000 | 3,750 |
| Haydn Warman | 5,000 | 5,000 | | | | | 5,000 | 5,000 |
| **Cyfanswm** | **16,544** | **18,554** | **22,000** | **16,333** | **22,000** | **16,333** | **64,229** | **51,220** |

1 Ymunodd Mr Sagar fel Cadeirydd y Bwrdd Cysgodol ym mis Medi 2012 (cydnabyddiaeth cyfwerth â blwyddyn lawn: £7,250).

2 Ymunodd Ms Hayes fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ym mis Tachwedd 2012 (cydnabyddiaeth cyfwerth â blwyddyn lawn: £5,000).

3 Daeth tymor Mr Laing yn ei swydd i ben ym mis Hydref 2012.

4 Ymunodd Mr Lloyd fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ym mis Gorffennaf 2012 (cydnabyddiaeth cyfwerth â blwyddyn lawn: £7,250).

5 Mae Mr Lynn yn Gyfarwyddwr i Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Ni chafodd unrhyw dâl cydnabyddiaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am fod yn aelod o'r Pwyllgor hwn ac eithrio ad-daliad am gostau teithio a threuliau.

Mae aelodau pwyllgorau yn cael contractau am ddwy neu dair blynedd i ddechrau a gellir eu hymestyn am gyfnod pellach yn amodol ar berfformiad boddhaol a/neu gydsyniad y naill ochr a'r llall. Mae cadeiryddion pob pwyllgor hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Cysgodol. Nid ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth ychwanegol am hyn. Ni chaniateir i aelod pwyllgor wasanaethu am fwy na saith mlynedd. Gall aelodau pwyllgorau wneud cais am eu costau teithio a'u treuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan gytundeb setliad TWE gyda CThEM. Datgelir gwerth y treuliau hyn, gan gynnwys treth, yn y tabl canlynol.

| Treuliau gros | Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | | Pwyllgor Adnoddau | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012-13 | 2011-12 | 2012-13 | 2011-12 | 2012-13 | 2011-12 | 2012-13 | 2011-12 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Cadeirydd y Bwrdd Cysgodol** | | | | | | | | |
| Deep Sagar | | | | | | | 2,696 | |
| **Aelodau'r pwyllgor** | | | | | | | | |
| Rosamund Blomfield-Smith | | | 2,122 | 1,942 | | | 2,122 | 1,942 |
| Dr Michael P Brooker | | | | | 369 | | 369 | |
| Steven Burnett | | | | | 1,328 | 565 | 1,328 | 565 |
| Mary Champion | | | | | 262 | 327 | 262 | 327 |
| Yr Athro David Hands | | 1,011 | | | | | | 1,011 |
| Christine Hayes | | | | | | | | |
| Dr Elizabeth Haywood | | | | 195 | | | | 195 |
| Michael Heap | | | | | | | | |
| Peter Laing | 638 | | | | | | 638 | |
| Gilbert Lloyd | | | | | | | | |
| Denver Lynn | 2,358 | 1,134 | | | | | 2,358 | 1,134 |
| Dr Arun Midha | | | | | | | | |
| Y Canon David Stanton | | | 1,393 | 583 | | | 1,393 | 583 |
| Haydn Warman | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **2,996** | **2,145** | **3,515** | **2,720** | **1,959** | **892** | **11,166** | **5,757** |

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2013

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Cafwyd cyfarwyddyd newydd ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2010-11 ac erys mewn grym. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol yn ogystal ag incwm a gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn FReM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 16(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano; am gadw cyfrifon cywir; am weinyddu mewn modd pwyllog a darbodus; am osgoi gwastraff ac afradlondeb; ac am ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael mewn modd effeithlon ac effeithiol, eu nodi yn y *Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru* a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 16 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012-13

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae'n rhaid i mi gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni fy mholisïau, nodau ac amcanion, yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau'n effeithiol ac yn ymgorffori trefniadau rheoli risg effeithiol.

Mae'n rhaid i mi hefyd sefydlu trefniadau priodol i dderbyn sylwadau a chyngor ffurfiol ar ansawdd trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y maent yn gweithredu, gan gynnwys drwy gyfraniadau allanol annibynnol ac yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â risg a rheolaeth ac o ran fy ymddygiad i ac ymddygiad fy staff.

Disgrifir cwmpas llawn fy nghyfrifoldebau yn y *Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru* a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol yr wyf yn atebol iddo. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn archwilio fy amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau ac yn penodi fy archwilydd allanol.

Fel Archwilydd Cyffredinol, fi yw archwilydd allanol y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru neu rwyf yn penodi archwilwyr iddynt. Rwyf hefyd yn ystyried sut mae'r cyrff hyn yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys a ydynt yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon rwyf yn annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

# Y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol a chydbwyso'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Ar hyn o bryd, diffinnir Swyddfa Archwilio Cymru drwy statud fel yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Nid yw'n endid cyfreithiol: breinir pob pŵer, hawl a dyletswydd yn yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, wrth reswm, ni allaf wneud pob penderfyniad busnes ac rwyf wedi sefydlu trefniadau ar gyfer arfer awdurdod ar fy rhan.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei chyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w dwyn i gyfrif am ei gweithgareddau. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn bosibl i Swyddfa Archwilio Cymru fonitro sut mae'n cyflawni ei hamcanion strategol ac i werthuso a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly mae'n rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith pe caent eu gwireddu, a rheoli'r risgiau hynny yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau sy'n ein hwynebu, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Mae fy fframwaith llywodraethu wedi'i bennu mewn canllawiau mewnol a gaiff ei adolygu wrth i'r sefydliad agosáu at ddechrau darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft at ddiben ymgynghori[25] a gynlluniwyd i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru. Ymhlith darpariaethau eraill, roedd y Bil hwnnw'n cwmpasu sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol wedi'i arwain gan fwrdd statudol â chadeirydd annibynnol a mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol.

Cafodd y broses ddilynol o gyflwyno'r Bil hwnnw i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2012 a'i hynt drwy'r broses ddeddfwriaethol ddylanwad ar ffocws fy ngweithgareddau yn ystod y flwyddyn wrth i mi geisio cyfrannu'n effeithiol at broses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Mae'r darpariaethau'n gwneud newid mawr i drefniadau rheoli mewnol ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru ac mae fy nhrefniadau llywodraethu wedi parhau i esblygu i brofi sut y gallai'r trefniadau hynny weithio'n ymarferol.

25 Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

Bwriedir i'm trefniadau arwain Swyddfa Archwilio Cymru tuag at gydymffurfiaeth â Chod Arfer Da'r llywodraeth ar Lywodraethu Corfforaethol i'r graddau bod ei ofynion yn berthnasol ac yn ymarferol o gofio'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

Am y cyfnod a gwmpesir yn yr adroddiad hwn, pennwyd fy ngweledigaeth a'm hamcanion yn fy strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2009-2012. Penderfynais ohirio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cyfeiriad strategol newydd tra bod y canlynol yn yr arfaeth:

- fy ystyriaeth o oblygiadau'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ar y pryd o ran gweithrediadau yn y dyfodol;
- cwblhau fy strategaeth gontractio sy'n pennu'r egwyddorion ategol a'm dull o gaffael gwasanaethau archwilio yn y tymor canolig;
- rhagor o waith ar strategaeth gweithlu a strategaeth ariannol tymor canolig Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyd-destun yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar fy nghyfeiriad strategol arfaethedig a'r amgylchedd ariannol cyfyngedig y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus weithredu ynddo.

Cyhoeddais strategaeth newydd ar ddiwedd y flwyddyn a disgwyliaf i'r bwrdd newydd, unwaith y'i penodir, ei hadolygu a'i gweithredu.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, dirprwyais fy awdurdod am gyflawni fy nodau ac amcanion strategol i dri archwilydd cyffredinol cynorthwyol. Gyda'n gilydd ni yw'r Pwyllgor Gweithredol ac rwyf yn ei gadeirio. Drwy'r Pwyllgor hwn y byddaf yn gwneud penderfyniadau strategol a phenderfyniadau polisi ac mae'n gyfrifol am fonitro risgiau strategol allweddol ac am sicrhau y cânt eu rheoli'n effeithiol gyda rheolaethau lliniaru priodol ar waith. Mae'r Pwyllgor - ynghyd â'r Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys pob cyfarwyddwr - hefyd yn nodi'r gwerthoedd sefydliadol sy'n llywodraethu gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ac ymddygiad ei staff. Yn 2012-13, cyfarfu'r Pwyllgor Gweithredol 21 o weithiau a chafodd amrywiaeth o wybodaeth i ategu ei weithgareddau.

Mae'r archwilwyr cyffredinol cynorthwyol yn atebol i mi am gyflawni eu hamcanion cymeradwy fel y'u disgrifiwyd yn fy nghynllun gweithredol blynyddol ac am sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i reoli'r risgiau yn eu meysydd busnes. Mae pob un yn arwain tîm rheoli o gyfarwyddwyr neu reolwyr gwasanaeth y maent yn dirprwyo cyfrifoldeb am gyflawni prosiectau, tasgau a gwasanaethau penodol iddynt ac am reoli risgiau.

2012-13 oedd blwyddyn lawn gyntaf gweithredu fy nhrefniadau llywodraethu. Sefydlais Fwrdd Cysgodol er mwyn paratoi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gweithredu'r bwrdd statudol. Mae'n rhoi cyngor i mi ar nodau ac amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru ac ar ddefnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i'w cyflawni. Yn ystod y flwyddyn, penodwyd cadeirydd annibynnol drwy broses a oruchwyliwyd gan gynrychiolydd o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Cysgodol hefyd yn cynnwys cadeiryddion y tri phwyllgor llywodraethu a'r archwilwyr cyffredinol cynorthwyol sy'n aelodau o'm Pwyllgor Gweithredol.

Gyda'i gilydd, mae'r Pwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg, Cydnabyddiaeth ac Adnoddau'n rhoi cyngor gwrthrychol a diduedd sy'n fy helpu i gyflawni fy nghyfrifoldebau am reoli risg yn briodol, rheolaeth a llywodraethu ac am roi sicrwydd cysylltiedig yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys sicrwydd ynglŷn â chydnabyddiaeth staff a rheoli adnoddau.

Mae'r tri phwyllgor llywodraethu'n gweithredu fel is-bwyllgorau'r Bwrdd Cysgodol. Yn 2012-13, gweithiodd y cylch busnes yn fwy effeithlon i gefnogi gwaith llywodraethu ac atebolrwydd ond bydd angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau mwy amserol ac effeithiol yn cael eu gwneud.

Ar gyfer y Bwrdd Cysgodol a'i bwyllgorau rwyf yn cynnal cofrestr o fuddiannau aelodau sy'n dwyn ynghyd wybodaeth o'n datganiadau o annibyniaeth a gesglir bob blwyddyn ac unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn o ddatganiadau a wneir yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cysgodol a'r pwyllgorau. Mae hyn yn sicrhau y caiff achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu nodi cyn cyfarfodydd lle y bo'n ymarferol ac y cymerir camau i'w lliniaru.

Mae gan bob un o gadeiryddion y Bwrdd Cysgodol a'i bwyllgorau llywodraethu a'r Pennaeth Archwilio Mewnol hawl mynediad, a gallant godi materion sy'n achosi pryder yn uniongyrchol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol yn cael mynediad dirwystr a chyfrinachol at y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, gan gynnwys drwy sesiwn breifat ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor.

Tua diwedd 2012-13, cytunodd y Bwrdd Cysgodol i adolygu cydbwysedd gwaith y Pwyllgorau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau er mwyn lleihau'r risg o ddyblygu rhyngddynt a sicrhau bod gwaith craffu effeithiol yn cael ei wneud ar bob agwedd ar weithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru sydd o fewn eu cyfrifoldebau. Yn sgil yr adolygiad hwnnw, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am graffu ar swyddogaethau adnoddau dynol i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cafodd cylch gorchwyl y pwyllgorau ei addasu'n briodol.

Mae Arddangosyn 6 yn crynhoi presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cysgodol a'r pwyllgorau yn 2012-13.

Arddangosyn 6: Presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cysgodol a'r pwyllgorau yn 2012-13

| | Pwyllgor Gweithredol | Bwrdd Cysgodol | Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | Pwyllgor Adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | 21 | 5 | 4 | 5 | 4 |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol** | | | | | |
| Dr Arun Midha | | | | | 3 |
| Y Canon David Stanton | | | | 5 | |
| Christine Hayes[1] | | | 1 | | |
| Deep Sagar[2] | | 4 | | | |
| Denver Lynn | | | 4 | | |
| Dr Elizabeth Haywood | | | | 5 | |
| Gilbert Lloyd[3] | | 3 | 3 | | |
| Haydn Warman | | | 4 | | |
| Mary Champion | | | | | 4 |
| Michael Heap | | | | 5 | |
| Dr Michael Brooker | | 5 | | | 4 |
| Peter Laing[4] | | 2 | 3 | | |
| Rosamund Blomfield-Smith | | 5 | | 5 | |
| Steve Burnett | | | | | 4 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru**[5] | | | | | |
| Anthony Barrett | **19** | **5** | **2** | | |
| Gillian Body | **20** | **5** | | | **1** |
| Huw Vaughan Thomas | **20** | **5** | **4** | **3** | **2** |
| Kevin Thomas | **17** | **4** | **4** | **5** | **4** |

1 Penodwyd Christine Hayes i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn dilyn ei gyfarfod ym mis Hydref 2012 a phenodwyd Gilbert Lloyd yn Gadeirydd y Pwyllgor. Roedd Christine Hayes hefyd yn bresennol mewn un cyfarfod fel arsylwr cyn ei phenodiad ffurfiol.

2 Penodwyd Deep Sagar yn Gadeirydd annibynnol y Bwrdd Cysgodol yn ystod haf 2012 a chymerodd y rôl honno ym mis Medi. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, bu Mr Sagar hefyd yn arsylwi'r modd yr oedd pob pwyllgor llywodraethu yn gweithredu.

3 Penodwyd Gilbert Lloyd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ym mis Mehefin 2012 a dechreuodd yn ei rôl fel Cadeirydd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref.

4 Ymddiswyddodd Peter Laing fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn dilyn y cyfarfod ym mis Hydref ar ôl gwasanaethu am ddau dymor yn olynol.

5 Mae'r Archwilydd Cyffredinol, fel y Swyddog Cyfrifyddu, a'i archwilwyr cyffredinol cynorthwyol yn aelodau o'r Bwrdd Cysgodol. Nid ydynt yn aelodau o'r pwyllgorau llywodraethu ond maent yn bresennol i friffio'r pwyllgorau neu gymryd eu cyngor fel y bo angen.

# Y fframwaith risg a rheoli

Y Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli risg yn Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn craffu ar drefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru.

Fy nod yw rheoli busnes Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd sy'n ystyried y risgiau a wynebwn, gan ddefnyddio systemau rheoli priodol. Ymgorfforir yr amcan hwn yn ein dulliau gwaith gan gynnwys gweithdrefnau llywodraethu diffiniedig, polisïau rheoli ansawdd, rheolaeth ariannol a systemau i nodi a rheoli risgiau.

O ystyried natur ein busnes, nid ydym yn goddef lefel uchel o risg o ran barn archwilio broffesiynol, rheoleidd-dra a phriodoldeb, a rheolaeth ariannol.

Cyflogaf nifer fawr o gyfrifwyr cymwysedig ac aelodau eraill o staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac sy'n rhwym wrth ofynion moesegol eu cyrff proffesiynol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Yn benodol, cymhwysir Safon Ryngwladol Rheoli Ansawdd 1 i'n holl waith archwilio ariannol.

Caiff y gwaith o reoli ansawdd archwiliadau ei hwyluso drwy ein proses archwilio a'r oruchwyliaeth hierarchaidd sydd ar waith o fewn prosiectau unigol. Mae gennym hefyd system o adolygiadau mewnol ac allanol. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Gweithredol ar ganlyniadau'r adolygiadau hyn. Mae'r rheolaethau hyn yn berthnasol i waith a wneir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a chwmnïau sector preifat sydd wedi'u contractio i weithio ar fy rhan.

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnal cofrestr o risgiau corfforaethol sy'n nodi risgiau strategol a gweithredol a allai effeithio ar allu Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni ei nodau a'i hamcanion. Mae'r Pwyllgor yn effro i'r angen i adolygu'r risgiau hyn yn barhaus a delio'n briodol ag amgylchiadau newydd wrth iddynt godi. Mae'r gofrestr gryno o risgiau yn eitem sefydlog ar yr agenda yn ail gyfarfod y pwyllgor bob mis; mae'r Pwyllgor yn adolygu'r gofrestr fanwl o risgiau bob chwarter, cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a'r Bwrdd Cysgodol.

Arhosodd proffil risg Swyddfa Archwilio Cymru yn gymharol sefydlog drwy gydol 2012-13 er y cafwyd rhai amrywiadau, yn bennaf yn sgil cyflwyno'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a'r ansicrwydd parhaus a achoswyd gan yr oedi a welwyd cyn i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) benderfynu ar fy statws TAW a thandalu posibl mewn perthynas â threth TWE a chyfraniadau yswiriant gwladol.

# Datblygiadau i wella'r fframwaith rheoli

Mae'n bwysig bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei chydnabod fel sefydliad effeithiol a reolir yn dda sy'n cyflawni gwerth am arian yn ei defnydd o adnoddau. Yn 2012-13, cyflwynais nifer o brosiectau a mentrau i wella atebolrwydd o fewn y sefydliad ymhellach, gan adeiladu ar y camau tuag at linellau adrodd mwy uniongyrchol a thryloyw a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae nifer o'r prosiectau hynny'n mynd rhagddynt ac yn cynnwys:

- sefydlu rhaglen datblygu diwylliant mewn ymateb i nifer o faterion a nodwyd yn arolwg staff 2012;
- datblygu ymhellach y fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol sy'n rhoi gwybodaeth reoli briodol ac amserol i mi, fy Mhwyllgor Gweithredol a nawr y Bwrdd Cysgodol sy'n ein galluogi i nodi risgiau sy'n dod i'r golwg ac ymateb iddynt;
- egluro'r trefniadau ar gyfer systemau rheoli ariannol dirprwyedig a ategir gan lawlyfr newydd a rhaglen hyfforddi staff;
- llunio system arfarnu perfformiad staff newydd sy'n adeiladu ar brofiad hyd yma ac yn dwyn ynghyd arfer da o fannau eraill;
- asesu a nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach i drefniadau rheoli dogfennau Swyddfa Archwilio Cymru;
- gwella ymhellach drefniadau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes;
- cyhoeddi strategaeth gwrth-dwyll newydd sy'n disgrifio'r fframwaith sy'n llywodraethu fy nhrefniadau;
- mireinio'r polisi diogelwch TG er mwyn gwella'r trefniadau i fonitro'r defnydd a wneir o TGCh gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yn rheolaidd.

Gyda'i gilydd, bwriedir i'r gwelliannau parhaus hyn sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

# Adolygu perfformiad ac effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad wedi'i lywio gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, rheolwyr Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol ac archwilwyr allanol drwy sylwadau yn eu llythyr rheoli. Wrth gwblhau fy adolygiad, rwyf hefyd yn ystyried cyngor y Bwrdd Cysgodol a'i bwyllgorau a ddisgrifiwyd yn eu hadroddiadau blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol safonau a ddiffiniwyd yn *Government Internal Audit Standards* (sydd bellach wedi'u disodli gan *Public Sector Internal Audit Standards,* y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cydymffurfio â hwy). Mae'n cyflawni rhaglen waith yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn hysbysu'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg am hynt y broses o weithredu'r rhaglen waith arfaethedig. Mae hefyd yn mynychu'r Pwyllgorau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau fel y bo angen. Yn unol â *Public Sector Internal Auditing Standards,* mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi barn archwilio mewnol flynyddol yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Yn 2012-13, arweiniodd pryder y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ynghylch adnoddau archwilio mewnol ac oedi dilynol wrth gyflawni'r rhaglen waith at adolygiad o'm trefniadau. Rwyf bellach yn treialu trefniant cyd-gaffael lle byddaf yn is-gontractio elfennau o waith archwilio mewnol a gynlluniwyd i gyflenwyr allanol. Drwy gymryd y camau newydd hyn, bu modd cydbwyso'r rhaglen waith mewn da bryd i lywio'r farn archwilio. Bydd y cynllun peilot yn parhau yn 2013-14 a bydd gwerthusiad yn galluogi bwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch ei drefniadau ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol i bob un o'm pwyllgorau llywodraethu gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru a archwiliwyd ganddo.

Nododd y Pwyllgor Adnoddau fod trefniadau'r sefydliad o ran y defnydd o adnoddau yn parhau i wella gyda rhywfaint o dystiolaeth o arfer da, er mai araf oedd y newidiadau. Roedd buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud i feithrin diwylliant y sefydliad er mwyn paratoi Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr heriau i ddod, ac mae hyn yn hanfodol o ran y gwelliant pellach sydd ei angen. Felly, nododd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth fod trefniadau rheoli tâl a pherfformiad y sefydliad yn parhau i ddatblygu yn erbyn cefndir o gyfyngiadau yn y sector cyhoeddus, ac mewn paratoad at anghenion y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Prif bryder y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn 2012-13 oedd effaith yr oedi wrth gyflwyno'r rhaglen archwilio mewnol ar gadernid ac amseroldeb ei chyngor i'r Archwilydd Cyffredinol. Cafodd y rhaglen ei chwblhau mewn pryd ar gyfer adolygiad y Pwyllgor o'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac, yn sgil hynny, bu'n bosibl iddo gymeradwyo barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar fframwaith rheoli Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ystod 2012-13, cytunodd y Bwrdd Cysgodol i weithredu system arfarnu perfformiad ar gyfer aelodau anweithredol a fframwaith ar gyfer asesu ei effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd ei bwyllgorau. Roedd disgwyl i'r ddau ymarfer gael eu cwblhau ym mis Gorffennaf 2013 a byddant yn llywio'r broses o ddatblygu'r trefniadau llywodraethu newydd ar ôl penodi'r Bwrdd statudol.

Mae gwaith fy mhwyllgorau gweithredol a llywodraethu wedi'i gefnogi gan fy swyddfa breifat sy'n cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i roi sicrwydd bod gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei wneud yn unol â safonau ansawdd priodol a bod ei systemau ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithredu'n effeithiol.

## Llywodraethu gwybodaeth

Ar y cyd â staff Swyddfa Archwilio Cymru, mae gennyf fynediad breintiedig ac eang i ddata a gwybodaeth i'm helpu i gyflawni'r swyddogaeth archwilio a sicrhau bod fy adroddiadau'n ffeithiol, yn gywir ac yn gyflawn. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru ddyletswydd i barchu'r mynediad breintiedig hwn a sicrhau bod y wybodaeth bersonol a roddir iddi yn cael ei diogelu'n briodol.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru *Bolisi Diogelwch Gwybodaeth* sy'n:

- nodi rhwymedigaethau pob cyflogai mewn perthynas â defnyddio cyfleusterau TGCh Swyddfa Archwilio Cymru;
- amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer prosesu data;
- tynnu sylw at brif gyfrifoldebau staff o ran diogelwch;
- nodi'r trefniadau ar gyfer gwaith monitro rheolaidd i gadarnhau bod staff yn cydymffurfio â'r gyfraith a pholisi Swyddfa Archwilio Cymru;
- nodi trefniadau Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r polisi;
- egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth a chanllawiau a sut y dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch.

Mae fy Ysgrifennydd Preifat yn atebol i'r Pwyllgor Gweithredol am lywodraethu gwybodaeth. Ef hefyd yw'r Pwynt Cyswllt Unigol sy'n gorfod awdurdodi'r holl gynigion i drosglwyddo lefelau uchel o wybodaeth fwy sensitif rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, cyrff archwiliedig a tharddwyr eraill.

Mae'r Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yn cynghori uwch reolwyr a staff ar faterion diogelwch technegol ac ymarferol, ac mae'n arwain unrhyw waith ymchwilio gofynnol.

Mae'r Swyddog Gwybodaeth yn gweithio i sicrhau bod prosesau llywodraethu gwybodaeth cyffredinol cadarn ar waith, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Y Swyddog Gwybodaeth yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan raddio ei threfniadau yn unol ag anghenion y sefydliad. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn disgwyl ystyried dogfennaeth System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth sydd wedi'i chwblhau ym mis Mehefin 2013.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol y dylid hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ohonynt yn 2012-13.

## Materion pwysig o ran rheolaeth fewnol

Yn 2011-12, soniais am rai materion penodol o ran rheolaeth fewnol a lywiodd y farn archwilio mewnol ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin â hwy:

- Mae'r trefniadau newydd ar gyfer cyfrifon rheoli a gyflwynwyd yn 2011-12 wedi cael eu gwella ymhellach fel bod gwybodaeth gywir ac amserol ar gael i'r Bwrdd Cysgodol a'r Pwyllgor Gweithredol. Atgyfnerthwyd gallu ac adnoddau'r tîm Cyllid drwy benodi Rheolwr Cyllid newydd ac mae rhaglen hyfforddi yn mynd rhagddi i atgyfnerthu'r gwaith o ddirprwyo trefniadau rheolaeth gyllidebol a chyflwyno adroddiadau cyllidebol o fewn y sefydliad cyfan.
- Oherwydd natur busnes Swyddfa Archwilio Cymru, am resymau effeithlonrwydd gweithredol, mae ei staff yn gweithio mewn amrywiaeth mawr o leoliadau ledled Cymru. Yn 2011-12, daeth yn amlwg bod rhai aelodau o staff, dros amser, at ddibenion asesu treth, wedi sefydlu gweithleoedd parhaol mewn lleoliadau heblaw am eu gweithle arferol o bosibl ac y dylid bod wedi talu treth ar dreuliau yr aethpwyd iddynt wrth deithio i'r lleoliadau hynny. Mae'r mater hwn wedi effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ac felly nid yw'n unigryw i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae fy staff yn parhau i gydweithio â CThEM er mwyn pennu natur a chwmpas unrhyw achos o dorri rheoliadau a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â rheoliadau treth yn y dyfodol.
- Roedd natur newidiol fy nhrefniadau llywodraethu gwell a'r posibilrwydd o strwythur corfforaethol newydd a ragwelwyd yn y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ar y pryd yn golygu bod yn rhaid i'r polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n cefnogi gweithrediadau busnes Swyddfa Archwilio Cymru gael eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus.
- Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n llywodraethu contractau a chaffael a chyfrifoldebau am gadarnhau bod y rheolaethau a sefydlwyd yn gweithredu fel y'u cymeradwywyd. Yn 2012-13, adolygodd fy staff yr holl wariant nad oedd yn ymwneud â chyflogau ynghyd â sampl o drafodion caffael a chadarnhawyd cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau caffael. Fodd bynnag, nododd fy staff nifer o risgiau ynghlwm wrth brosiectau penodol a reolir ganddynt. Byddant yn parhau i gynnal adolygiadau cyfnodol o drafodion gwariant a chaffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Yn ystod 2012-13, cyflwynais drefniadau gwell ar gyfer olrhain cynnydd wrth weithredu argymhellion archwilio mewnol ac allanol drwy system olrhain a gaiff ei hadolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Nid oedd unrhyw argymhellion a wnaed gan y gwasanaeth archwilio mewnol yn 2012-13 yr oedd angen cymryd camau brys neu sylweddol mewn perthynas â hwy am eu bod yn amlygu problem fawr neu wendid rheoli sylweddol. Ni wnaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol nodi unrhyw achosion o dwyll yn yr adolygiadau a gynhaliwyd ychwaith. Er na chododd unrhyw broblemau sylweddol, nodwyd pedwar mater pwysig yr oedd angen i reolwyr ymateb iddynt:

- yr angen i ddarparu hyfforddiant ychwanegol a chanllawiau gwell i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r polisi cydnabod incwm. Yn absenoldeb hynny, dylai rheolwyr ystyried newid y ffordd y caiff incwm ei gydnabod o fodel sy'n seiliedig ar fewnbwn (amser) i fodel sy'n seiliedig ar allbynnau (cerrig milltir);

- pwysleisio pwysigrwydd cofnodi amser yn gywir a gwella trefniadau ar gyfer delio ag amrywiadau i raglenni gwaith;
- cyflwyno adolygiadau chwarterol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y tîm Cyllid gyda rheolwyr y Grŵp Perfformiad ac Archwiliadau Ariannol;
- gwelliannau pellach i systemau adnoddau dynol gan gynnwys diweddaru a chyflawni'r strategaeth adnoddau dynol a nifer o bolisïau sy'n ymwneud ag adnoddau dynol.

Cafodd barn archwilio mewnol 2012-13 ei llywio gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y rheini a restrir uchod. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod systemau Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu cyflawni fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth effeithiol; mae cynnydd wedi'i wneud ac eir i'r afael ag unrhyw wendidau sy'n weddill o ran gweithredu rheolaethau mewnol.

# Y camau nesaf

Rwyf wedi derbyn barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac rwy'n cydnabod casgliadau fy mhwyllgorau llywodraethu. Yn amodol ar y rhain, rwy'n fodlon bod risgiau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwella'n sylweddol; pan fo gwendidau, mae camau ar waith i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r rheolwyr yn rhoi argymhellion y Pennaeth Archwilio Mewnol ar waith a bydd fy Mhwyllgor Gweithredu yn parhau i fonitro'r gwelliannau a wneir.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2013

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiwn ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, ac fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2012/13 y Llywodraeth.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r partïon y mae wedi'i gyfeirio atynt yn unig yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

## Priod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodwyd ar dudalen 56, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra gwariant a derbyniadau. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr. Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn ar reoleidd-dra gwariant a derbyniadau.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra gwariant a derbyniadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. At hynny, darllenwn yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys o dan y Ddeddf honno, o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2013 a'r alldro adnoddau net, y gofyniad arian parod net, y gwariant net cynhwysfawr, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan FReM 2012/13;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn ein barn ni, mae'r gwariant a'r incwm a ddangoswyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu ym mhob ffordd berthnasol.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan y Trysorlys o dan y Ddeddf honno;
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y cyflwynwn adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes dim i'w nodi gennym o ran y materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol y Trysorlys.

# Adroddiad

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

RSM Tenon Audit Limited
5 Gorffennaf 2013

Archwilwyr Cofrestredig
Vantage
Victoria Street
Basingstoke
Hampshire
RG21 3BT

# Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | 2012-13 | | | | | | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | | Alldro |
| | Gwariant gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant gros | Incwm | Cyfanswm Net | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Refeniw | 11,995 | (7,271) | 4,724 | 10,842 | (7,271) | 3,571 | 1,153 | 4,743 |
| Cyfalaf | 16 | | 16 | 16 | | 16 | 0 | 3 |
| Atodol | | | | | | 0 | 0 | 97 |
| Cyfanswm Adnoddau | 12,011 | (7,271) | 4,740 | 10,858 | (7,271) | 3,587 | 1,153 | 4,843 |
| Gofyniad Arian Parod Net (gweler y cysoniad isod) | | | 4,740 | | | 4,472 | 268 | 3,358 |

# Cysoni Cyfanswm Adnoddau â Gofyniad Arian Parod Net

| | | 2012-13 | | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Amrywiant | Alldro |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyfanswm adnoddau (fel uchod)** | 4,740 | 3,587 | 1,153 | 4,843 |
| **Addasiadau** | | | | |
| Eitemau anariannol (dibrisiant) | (10) | (210) | 200 | (121) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | 10 | 1,194 | (1,184) | (1,054) |
| Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | | (99) | 99 | (310) |
| **Cyfanswm gofyniad arian parod net (fel uchod)** | 4,740 | 4,472 | 268 | 3,358 |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau uchod yn crynhoi sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru yn erbyn yr elfennau hynny o gyllideb y Swyddfa sy'n amodol ar gymeradwyaeth drwy gynnig cynnig cyllidebol y Cynulliad Cenedlaethol. Yr elfennau dan sylw yw swm yr adnoddau a'r arian parod y gellir eu tynnu i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru a swm yr incwm a gynhyrchir drwy waith grant yn y GIG, llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a ffynonellau amrywiol y gellir ei gadw.

# Cysoni alldro adnoddau â gwariant net

| | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| | Alldro | Alldro |
| | £'000 | £'000 |
| **Cyfanswm adnoddau refeniw** | 3,571 | 4,843 |
| Incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | (99) | (310) |
| Incwm nad yw'n gyllid cyflenwi | (9,846) | (10,604) |
| Gwariant nad yw'n gyllid cyflenwi | 8,419 | 10,826 |
| **Gwariant net** | 2,045 | 4,755 |

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi lle mae ffigurau 2012-13 yn y tablau uchod wedi'u codi o'r ffigurau cyfatebol yn y Datganiad Cyfrifon, ac yn dangos sut y dosrannwyd y ffigurau hynny yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau.

| | Nodyn | Cyfanswm | Wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau | Heb eu cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm (ffioedd) | 2 | 15,871 | 7,347 | 8,524 |
| Incwm (grant) | 2 | 1,322 | | 1,322 |
| Incwm gweithredu arall | 3 | 11 | 11 | 0 |
| Llog banc | - | 12 | 12 | 0 |
| Llai incwm sy'n fwy na'r amcangyfrif | | (99) | (99) | 0 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **17,117** | **7,271** | **9,846** |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **19,261** | **10,842** | **8,419** |
| Dibrisiant | 7 | 495 | 210 | 285 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | Datganiad Llif Arian Parod | (2,810) | (1,194) | (1,616) |
| Ychwanegiadau cyfalaf | 8 a 9 | 589 | 16 | 573 |

Y symudiadau mewn cyfalaf gweithio yn y tabl uchod yw swm net y symudiadau mewn symiau derbyniadwy (£206,000) a symiau taladwy (£687,000) a darpariaethau (£2,329,000) a ddangosir yn y Datganiad Llif Arian Parod.

## Esboniad o amrywiannau

Mae'r alldro net a nodir uchod yn deillio o ryddhau'r ddarpariaeth a wnaed yn 2011-12 mewn perthynas â'r rhwymedigaeth a ragwelwyd o ran TAW. Rydym bellach wedi cael dyfarniad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r dyfarniad hwn wedi cadarnhau na fydd unrhyw rwymedigaeth hanesyddol mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol ac felly rydym wedi penderfynu ei bod yn briodol rhyddhau £2.392 miliwn o'r £2.6 miliwn a neilltuwyd yn 2011-12.

## Crynodeb o arian parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Fel y nodwyd uchod, yn y flwyddyn derbyniwyd £99,000 o incwm yn fwy na'r swm o £7,271,000 y caniatawyd i ni ei gadw. Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13, mae swm o £268,000 yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 78 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 2012-13 £'000 | 2011-12 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | 4 | 14,981 | 14,855 |
| Gwasanaethau allanol | 6 | 3,451 | 3,507 |
| Costau gweithredu eraill | 7 | 829 | 5,354 |
| | 2 | **19,261** | **23,716** |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 2 | 15,871 | 17,616 |
| Grant arolygu | 2 | 1,322 | 1,295 |
| Incwm gweithredu arall | 3 | 11 | 16 |
| | | **17,204** | **18,927** |
| **Net (gwariant)** | | **(2,057)** | **(4,789)** |
| Llog (taladwy)/derbyniadwy | | 12 | 11 |
| Treth gorfforaeth (taladwy)/adenilladwy | | 0 | 23 |
| **Gwariant net ar ôl treth a llog** | | **(2,045)** | **(4,755)** |
| Gwariant cynhwysfawr arall | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **(2,045)** | **(4,755)** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 78 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 816 | 631 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 120 | 218 |
| | | 936 | 849 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 10 | 1,061 | 1,223 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 11 | 461 | 522 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 12 | 4,519 | 6,667 |
| | | 6,041 | 8,412 |
| **Cyfanswm asedau** | | **6,977** | **9,261** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill | 13 | 1,743 | 2,433 |
| Incwm gohiriedig | 14 | 2,264 | 2,279 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 557 | 3,134 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau) | | 268 | 1,945 |
| | | 4,832 | 9,791 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **2,145** | **(530)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | 953 | 705 |
| | | 953 | 705 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | | **1,192** | **(1,235)** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | | 1,192 | (1,235) |
| | | **1,192** | **(1,235)** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 78 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2013

# Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | 2012-13<br>£'000 | 2011-12<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | (2,045) | (4,755) |
| Anariannol: dibrisiant | 7 | 495 | 276 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10, 11 | 223 | 426 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13, 14 | (704) | (288) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 15 | (2,757) | 2,258 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(4,788)** | **(2,083)** |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | (155) | (7) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | (6) | 0 |
| Ailddosbarthu'n refeniw | 8 | 6 | 67 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(155)** | **60** |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | 4,740 | 4,753 |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | (1,945) | (79) |
| **Ariannu net** | | **2,795** | **4,674** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 12 | **(2,148)** | **2,651** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 78 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | 162 |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2011-12 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (4,755) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 5,303 |
| | 710 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (1,945) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | **(1,235)** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2012-13 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (2,045) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 4,740 |
| | 1,460 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru[1] | (268) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | **1,192** |

1 Fel y nodwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013.

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 78 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodyn 1: Confensiynau a pholisïau cyfrifyddu

## Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2012-13, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir yn Nodyn 21: digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y bo FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd a gyhoeddwyd, ond nad ydynt yn effeithiol eto, a fyddai wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi'u cymhwyso i'r cyfnod adrodd hwn:

i Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried y broses o ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol lle bo hynny'n berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fe'u cyflwynir mewn punnoedd Prydeinig, sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru ac maent wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

ii Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.

iii Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu'n incwm gohiriedig (gweler xi). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler ix). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

iv Priodolwyd costau yr eir iddynt mewn gwaith archwilio (h.y. costau staff a chwmnïau dan gontract) yn uniongyrchol i'r ffrydiau incwm perthnasol. Codir am wariant arall yn gyntaf yn erbyn yr arian o Gronfa Gyfunol Cymru nas dyrannwyd ac yna, i'r graddau y mae'r arian ar gael, fe'i priodolir i ffrydiau incwm yn gymesur yn union â lefelau incwm.

v Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir y mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy wneud taliadau i PCSPS a gyfrifir ar sail gronnus.

vi Caiff rhenti prydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan hanfodol o gyfanswm y treuliau prydles. Os yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cael budd o gyfnodau di-rent yn ystod prydlesi, caiff y budd hwnnw ei gredydu'n gyfartal dros y cyfnod o ddechrau'r brydles hyd nes yr adolygiad rhent cyntaf.

vii Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

viii Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i dalu am gost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | 10 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | 3 blynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |

O dan bolisi cyfalafu'r Archwilydd Cyffredinol, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol ac wedi'i grwpio a meddalwedd gwerth dros £5,000, offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfa. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

ix Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Pennir darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

x Caiff darpariaeth ar gyfer costau dadfeilio eiddo ar brydles yn y dyfodol ei chynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Fe'i cronnir drwy daliad dadfeilio blynyddol, a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adferol a wneir i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuir yn y flwyddyn y nodir y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarperir gan syrfewyr annibynnol. Caiff y cyfryw ddarpariaethau eu cyfalafu a'u dibrisio dros oes yr ased neu hyd y brydles, pa un bynnag sydd fyrraf.

xi Mae incwm gohiriedig yn cynnwys incwm ffioedd sydd wedi'i anfonebu ond sydd heb ei gydnabod eto. Fe'i cyfrifir drwy asesu i ba raddau y mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, gan gydnabod y gyfran honno o incwm ffioedd a anfonebwyd fel refeniw yn ystod y cyfnod a thrin incwm sydd wedi'i anfonebu ond heb ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

xii Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, rhaid llunio amcangyfrifon a thybiaethau amrywiol sy'n effeithio ar y polisïau cyfrifyddu a gymhwysir a'r symiau a gofnodir. Caiff pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath ei adolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y diwygiwyd yr amcangyfrif ac ym mhob cyfnod y mae'r diwygiad yn effeithio arno yn y dyfodol.

Gwneir y defnydd mwyaf o amcangyfrifon a dyfarniadau pwysig yn y meysydd canlynol:

- Mae darpariaethau ar gyfer dileu swyddi a diswyddiadau yn seiliedig ar ragamcanion o daliadau pensiwn disgwyliedig yn y dyfodol. Yn unol â safonau cyfrifyddu, cydnabyddir y ddarpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y digwyddodd y digwyddiad sy'n dwyn rhwymedigaeth, gan dybio ei bod yn debygol bod angen trosglwyddo buddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif hyn mewn ffordd ddibynadwy.
- Caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ei brisio ar sail canran y gwaith heb ei filio sydd wedi'i gwblhau. Cyfrifir incwm gohiriedig ar sail asesiad o'r graddau y mae prosiect wedi'i gwblhau, fel yr eglurir uchod.
- Mae darpariaethau treth yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.
- Mae darpariaethau dadfeiliadau yn seiliedig ar gyngor proffesiynol a dderbyniwyd.

xiii Ystyrir digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol y gall fod angen eu datgelu neu eu haddasu yn unol â gofynion IAS 10 hyd at y dyddiad yr awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir mai'r dyddiad hwn yw'r dyddiad y llofnodir Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol.

# Nodyn 2: Dadansoddiad o wariant net fesul segment

Crynhoir incwm, ariannu a chostau gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2012-13 yn y tabl canlynol:

| | Archwilio llywodraeth leol | Ardystio grantiau llywodraeth leol[1] | Archwilio'r GIG[1] | Archwilio llywodraeth ganolog[1] | Perfformiad llywodraeth leol | Perfformiad y GIG[1] | Perfformiad llywodraeth ganolog[1] | Gwaith gwerth am arian a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | Gweithgareddau a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm ac ariannu** | | | | | | | | | | |
| Ffioedd archwilio | 5,131 | 2,520 | 1,987 | 1,588 | 3,393 | 1,252 | 0 | | | 15,871 |
| Grant | | | | | 1,322 | | | | | 1,322 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | | | | 2,546 | 2,178 | 4,724 |
| Cyfanswm | 5,131 | 2,520 | 1,987 | 1,588 | 4,715 | 1,252 | 0 | 2,546 | 2,178 | 21,917 |
| **Gwariant** | 4,734 | 2,319 | 1,423 | 1,390 | 3,685 | 986 | | 2,546 | 2,178 | 19,261 |
| | 397 | 201 | 564 | 198 | 1,030 | 266 | 0 | 0 | 0 | 2,656 |

1 Mae incwm a gwariant y segmentau hyn wedi'u cynnwys yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau

Mae'r gwariant a nodir yn 2012-13 wedi'i leihau £2.392 miliwn o ganlyniad i ryddhau'r ddarpariaeth a neilltuwyd ar gyfer TAW hanesyddol yn 2011-12. Pe na bai am y ffaith bod y ddarpariaeth hon wedi'i rhyddhau, byddai incwm a gwariant a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru wedi bod yn gytbwys ar y cyfan yn 2012-13.

## Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | £'000 |
|---|---|
| Yn unol â'r dadansoddiad uchod | 2,656 |
| Adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru | (4,724) |
| Treth gorfforaeth | 0 |
| Llog derbyniadwy | 12 |
| Incwm arall | 11 |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (2,045) |

Roedd ffigurau cymharol 2011-12 fel a ganlyn:

| | Archwilio llywodraeth leol | Ardystio grantiau llywodraeth leol | Archwilio'r GIG | Archwilio llywodraeth ganolog | Perfformiad llywodraeth leol | Perfformiad y GIG | Perfformiad llywodraeth ganolog | Gwaith gwerth am arian a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | Gweithgareddau a ariannwyd gan Gronfa Gyfunol Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm ac ariannu** | | | | | | | | | | |
| Ffioedd archwilio | 5,453 | 2,609 | 2,343 | 1,667 | 3,856 | 1,686 | 2 | | | 17,616 |
| Grant | | | | | 1,295 | | | | | 1,295 |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | | | | 1,951 | 3,452 | 5,403 |
| Cyfanswm | 5,453 | 2,609 | 2,343 | 1,667 | 5,151 | 1,686 | 2 | 1,951 | 3,452 | 24,314 |
| **Gwariant** | 6,088 | 2,609 | 2,343 | 1,667 | 4,738 | 1,321 | 0 | 1,951 | 2,999 | 23,716 |
| | (635) | 0 | 0 | 0 | 413 | 365 | 2 | 0 | 453 | 598 |

## Cysoni â’r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | £’000 |
|---|---|
| Yn unol â'r dadansoddiad uchod | 598 |
| Adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru | (5,403) |
| Treth gorfforaeth | 23 |
| Llog derbyniadwy | 11 |
| Incwm arall | 16 |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (4,755) |

# Nodyn 3: Incwm gweithredu arall

| | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| | £’000 | £’000 |
| Incwm amrywiol | 11 | 16 |
| | 11 | 16 |

# Nodyn 4: Staff a chostau cysylltiedig

| (i) Costau staff | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau staff | 10,317 | 10,029 |
| Ffioedd aelodau anweithredol pwyllgorau[1] | 64 | 51 |
| Costau nawdd cymdeithasol[2] | 1,065 | 1,243 |
| Costau pensiwn | 2,069 | 2,051 |
| | 13,515 | 13,374 |
| Cynllun ceir | 745 | 681 |
| Tanysgrifiadau a buddiannau eraill | 38 | 33 |
| | 14,298 | 14,088 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 472 | 728 |
| | 14,770 | 14,816 |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 263 | 105 |
| Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (52) | (66) |
| Costau staff net | 14,981 | 14,855 |

1 Fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

2 Roedd costau nawdd cymdeithasol yn uwch yn 2011-12 o ganlyniad i ddarpariaeth ar gyfer costau TWE hanesyddol.

Ceir gwybodaeth fanylach am daliadau cydnabyddiaeth a hawliau pensiwn uwch reolwyr yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalennau 48 i 55.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir yw hwn ond ni all Swyddfa Archwilio Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Mae cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar lefelau cyflogau ac mae cyfraddau cyfrannu yn amrywio rhwng 16.7 y cant a 24.3 y cant (2011-12: 16.7 y cant i 24.3 y cant). Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr oedd £2,060,736 (2011-12: £2,047,458). Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl ailbrisio'r cynllun yn llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gael eu cronni, nid pan eir i'r costau yn union, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid y mae'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Yn ystod 2012-13, manteisiodd dau gyflogai ar y dewis hwn (2011-12: un). Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr i bensiynau partneriaeth oedd £7,687 (2011-12: £4,210).

| **(ii) Niferoedd staff** | **2012-13** | **2011-12** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 226 | 223 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd) | 11 | 17 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio nifer o gontractwyr archwilio ac arolygu dros dro ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn i ateb y galw am adnoddau ar gyfnodau brig.

# Nodyn 5: Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu cynlluniau diswyddo gwirfoddol yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac fel y'u cymeradwywyd gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r cynlluniau hyn yn bodloni gofynion cynllunio'r gweithlu ac maent wedi arwain at leihad yn sylfaen costau staffio Swyddfa Archwilio Cymru. Cost y cynllun yn 2012-13 oedd £192,207 (2011-12: £346,673).

Gadawodd nifer o gyflogeion drwy becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2012-13 a 2011-12 fel y crynhoir isod:

| Band costau'r pecyn ymadael | 2012-13 | | | 2011-12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau |
| Llai na £10,000 | | | | | | |
| £10,000 – £25,000 | | | | | 1 | 1 |
| £25,000 – £50,000 | | | | | 2 | 2 |
| £50,000 – £100,000 | | 1 | 1 | | 2 | 2 |
| £100,000 – £150,000 | | 1 | 1 | | 1 | 1 |
| £200,000 a throsodd | | | | | | |
| **Cyfanswm** | 0 | 2 | 2 | 0 | 6 | 6 |

Roedd gan y ddau unigolyn y caniatawyd iddynt adael yn wirfoddol yn 2012-13 ddyddiadau gadael yn 2013-14. Mae costau'r ddau becyn wedi'u cynnwys yn Nodyn 4: costau staff a Nodyn 15: darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau.

Talwyd costau ymddeoliadau cynnar ac ymadawiadau yn unol â pholisi Swyddfa Archwilio Cymru, y cytunwyd arno gydag undebau llafur cydnabyddedig. Caiff y costau ychwanegol nas telir gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u cydnabyddir yn y datganiadau ariannol hyn.

# Nodyn 6: Gwasanaethau allanol

| | 2012-13<br>£'000 | 2011-12<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 3,320 | 3,393 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 131 | 114 |
| | 3,451 | 3,507 |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwil.

# Nodyn 7: Costau gweithredu eraill

| | 2012-13<br>£'000 | 2011-12<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llety | | |
| Costau prydlesi rhent | 245 | 376 |
| Costau eraill | 390 | 393 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau[1] | 1,374 | 1,234 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer TAW[1] | (2,392) | 2,392 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | 57 | 31 |
| Dibrisiant | 495 | 276 |
| Ffi archwilio sy'n daladwy i Audit Scotland | - | 3 |
| Ffi archwilio sy'n daladwy i RSM Tenon | 29 | 23 |
| Ffioedd proffesiynol[2] | 64 | 105 |
| Teithio a chynhaliaeth | 397 | 408 |
| Hyfforddiant | 170 | 140 |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion | - | (27) |
| | 829 | 5,354 |

1 Cyfanswm y cyflenwadau a'r gwasanaethau yn 2011-12 oedd £3,626,000. Mae'r ffigur hwn wedi'i rannu at ddibenion cyflwyno er mwyn amlygu effaith y cynnydd a'r gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer trethiant.

2 Mae ffioedd proffesiynol yn cyfeirio at ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill

# Nodyn 8: Eiddo, offer a chyfarpar

| 2012-13 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 823 | 207 | 112 | 1,142 |
| Ychwanegiadau | 560 | - | 23 | 583 |
| Gwarediadau | - | - | (20) | (20) |
| Ailddosbarthwyd i refeniw | (6) | - | - | (6) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 1,377 | 207 | 115 | 1,699 |
| Dibrisiant | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 344 | 104 | 63 | 511 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 355 | 17 | 20 | 392 |
| Gwarediadau | - | - | (18) | (18) |
| Ailddosbarthwyd i refeniw | (2) | - | - | (2) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 697 | 121 | 65 | 883 |
| Gwerth llyfr net | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 680 | 86 | 50 | 816 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 479 | 103 | 49 | 631 |
| Ariannu asedau | | | | |
| A berchenogir | 680 | 86 | 50 | 816 |

| 2011-12 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 920 | 260 | 32 | 1,212 |
| Ychwanegiadau | 7 | - | - | 7 |
| Gwarediadau | (37) | (53) | - | (90) |
| Ailddosbarthwyd i refeniw | (67) | - | - | (67) |
| Ailddosbarthwyd o asedau anniriaethol | - | - | 80 | 80 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 823 | 207 | 112 | 1,142 |
| Dibrisiant | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 302 | 140 | 24 | 466 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 104 | 17 | 19 | 140 |
| Gwarediadau | (35) | (53) | - | (88) |
| Ailddosbarthwyd i refeniw | (27) | - | - | (27) |
| Ailddosbarthwyd o asedau anniriaethol | - | - | 20 | 20 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 344 | 104 | 63 | 511 |
| Gwerth llyfr net | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 479 | 103 | 49 | 631 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 618 | 120 | 8 | 746 |
| Ariannu asedau | | | | |
| A berchenogir | 479 | 103 | 49 | 631 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

# Nodyn 9: Asedau anniriaethol

Trwyddedau meddalwedd yw asedau anniriaethol.

| 2012-13 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|
| Cost | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 715 |
| Ychwanegiadau | 6 |
| Gwarediadau | (9) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 712 |
| Amorteiddio | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 497 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 104 |
| Gwarediadau | (9) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 592 |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 120 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 218 |
| Ariannu asedau | |
| A berchenogir | 120 |

| 2011-12 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|
| Cost | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 804 |
| Ychwanegiadau | - |
| Gwarediadau | (9) |
| Ailddosbarthwyd i offer swyddfa | (80) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 715 |
| Amorteiddio | |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 362 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 164 |
| Gwarediadau | (9) |
| Ailddosbarthwyd i offer swyddfa | (20) |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 497 |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 218 |
| Ar 31 Mawrth 2011 | 442 |
| Ariannu asedau | |
| A berchenogir | 218 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

# Nodyn 10: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| Llywodraeth ganolog | 98 | 96 |
| Llywodraeth leol | 337 | 141 |
| Y GIG | 99 | 248 |
| Y tu allan i'r llywodraeth | 6 | 6 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | |
| Llywodraeth ganolog | 391 | 408 |
| Llywodraeth leol | 130 | 199 |
| Y GIG | - | 125 |
| | 1,061 | 1,223 |

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus yn 2012-13.

# Nodyn 11: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy eraill | - | 46 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 459 | 474 |
| Benthyciadau i gyflogeion | 2 | 2 |
| | 461 | 522 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Gellir dadansoddi balansau'r symiau derbyniadwy yn Nodiadau 10 ac 11 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2013 £'000 | 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 506 | 583 |
| Cyrff llywodraeth leol | 631 | 487 |
| Cyrff y GIG | 99 | 308 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 286 | 367 |
| | 1,522 | 1,745 |

# Nodyn 12: Arian parod a’r hyn sy’n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £’000 | £’000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 6,667 | 4,016 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (2,148) | 2,651 |
| Balans ar 31 Mawrth | 4,519 | 6,667 |

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £’000 | £’000 |
| Cyfrif cyfredol | 2,817 | 5,672 |
| Cyfrif Ewro | 1 | 3 |
| Y Gronfa Sterling Fyd-eang | 1,701 | 992 |
| | 4,519 | 6,667 |

Mae’r Cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos. Diben y cyfrif Ewro yw symleiddio trafodion tramor achlysurol.

Darperir y Gronfa Sterling Fyd-eang gan Grŵp RBS. Nod y gronfa hon yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra’n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae’r gronfa wedi’i strwythuro i sicrhau y cynhelir y statws credyd uchaf, sef statws AAA neu statws cyfwerth, gydag asiantaethau graddio statws Standard & Poor, Fitch a Moody.

# Nodyn 13: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach taladwy[1] | 161 | 224 |
| TAW | | 451 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 2 | 360 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 486 | 619 |
| Croniadau eraill[2] | 545 | 779 |
| | 1,743 | 2,433 |

1 Mae pob swm masnach taladwy yn ddyledus o fewn blwyddyn.

2 Mae'r rhan helaeth o'r croniadau eraill yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Hefyd yn y ffigurau croniadau eraill mae swm o £4,076 ar gyfer addasiadau prydles sy'n ymwneud â chyfnod di-rent wedi'i amorteiddio dros oes pum mlynedd y brydles. Mae ffigur o £210,669 ar gyfer cyfraniadau pensiwn mis Mawrth wedi'i gynnwys o fewn croniadau eraill ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.

# Nodyn 14: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | 2,264 | 2,279 |
| | 2,264 | 2,279 |

Yn unol â safonau cyfrifyddu, mae'n ofynnol i ni asesu i ba raddau mae prosiectau wedi'u cwblhau, fel canran, a chydnabod y gyfran honno o'r incwm ffioedd disgwyliedig fel refeniw yn ystod y cyfnod. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

Gellir dadansoddi’r balansau taladwy yn Nodiadau 13 a 14 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £’000 | £’000 |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 776 | 1,051 |
| Cyrff llywodraeth leol | 1,351 | 1,482 |
| Cyrff y GIG | 885 | 815 |
| Cyrff y tu allan i'r llywodraeth | 995 | 1,364 |
| | 4,007 | 4,712 |

# Nodyn 15: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | CThEM | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 146 | 1,088 | 2,605 | 3,839 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 428 | 239 | 30 | 697 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd/ rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn | (32) | (512) | (2,482) | (3,026) |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 542 | 815 | 153 | 1,510 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EM ym mis Tachwedd 2012, sef 2.35 y cant mewn termau real i gyfrifo’r balans hwn (2011-12: 2.8 y cant).

Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig:

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | CThEM | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | - | 404 | 153 | 557 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | 65 | 369 | - | 434 |
| Dros bum mlynedd | 477 | 42 | - | 519 |
| | 542 | 815 | 153 | 1,510 |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys amcangyfrif o gost debygol gwneud newidiadau adferol i eiddo a brydlesir, ynghyd â swm ar gyfer 'traul' a gyfrifir drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr ased a brydlesir. Amcangyfrifwyd cost y gwaith adferol a wnaed i'r swyddfeydd ar Heol y Gadeirlan gan syrfewyr annibynnol. Amcangyfrifwyd y gost o wneud newidiadau i'r swyddfeydd ym Mhenllergaer ac Ewlo drwy gyfeirio at y costau sy'n ymwneud â gwneud y newidiadau. Mae'r ddarpariaeth wedi cynyddu yn ystod 2012-13 oherwydd newid yn y driniaeth gyfrifyddu er mwyn bodloni gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer CThEM yn ymwneud â'r canlynol:

- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol i gontractwyr sydd wedi darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2013;
- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â threuliau a dalwyd i rai aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru;
- tandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion.

Mae elfen o'r ddarpariaeth a neilltuwyd ar ddiwedd 2011-12 mewn perthynas ag ymholiad ynghylch statws TAW yr Archwilydd Cyffredinol, sydd wedi bod yn destun trafodaeth ers tro, wedi'i rhyddhau yn 2012-13 gan fod CThEM bellach wedi dyfarnu na fydd unrhyw asesiad ar gyfer rhwymedigaethau hanesyddol ac felly nid oes angen y ddarpariaeth mwyach.

## Nodyn 16: Prydlesi gweithredu

Roedd ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2013 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo sy'n dod i ben:

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 51 | 17 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 346 | 373 |
| | 397 | 390 |

Roedd ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2013 o ran prydlesi swyddfeydd sy'n dod i ben:

| | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | Nifer yr eiddo | £'000 | Nifer yr eiddo |
| O fewn blwyddyn | - | - | - | - |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 178 | 2 | 109 | 1 |
| Dros bum mlynedd | 3,560 | 1 | 4,048 | 2 |
| | 3,738 | 3 | 4,157 | 3 |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

# Nodyn 17: Colledion a thaliadau arbennig

## Taliadau arbennig

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig yn 2012-13 (2011-12: dim).

## Colledion

Ni fu unrhyw golledion i'w datgelu yn 2012-13 (2011-12: dim).

# Nodyn 18: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae IAS 32 *Offerynnau Ariannol: Datgelu a Chyflwyno* ac IAS 39 *Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur* yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol fenthyca arian, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fuddsoddi arian dros ben hefyd, a gwna hynny drwy gyfrif llog dros nos a thrwy'r Gronfa Sterling Fyd-eang (gweler Nodyn 12). Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

## Risg o hylifedd

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.

Yn sgil yr agwedd hon, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

## Risg cyfradd llog

Nid yw asedau na rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

## Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r warged weithredu.

## Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i hamlygu i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

## Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2013 (31 Mawrth 2012: dim).

# Nodyn 19: Rhwymedigaeth wrth gefn

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu i Gyllid a Thollau EM yn gofyn am gadarnhad bod staff gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i fodloni'r diffiniad o fod 'wedi'u lleoli'n ddaearyddol' at ddibenion treth. Rydym yn aros am ateb. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dweud a fydd unrhyw rwymedigaeth yn crisialu, ac os felly, beth fyddai swm tebygol rhwymedigaeth o'r fath. Pe bai rhwymedigaeth sylweddol yn crisialu, byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol gael arian o Gronfa Gyfunol Cymru neu ffioedd archwilio ychwanegol i fodloni'r rhwymedigaeth honno.

# Nodyn 20: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Unig gorfforaeth yw'r Archwilydd Cyffredinol a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cynnal nifer o drafodion perthnasol gyda Chronfa Gyfunol Cymru a'r cyrff a archwilir ganddo ef a'i archwilwyr penodedig fel y datgelwyd yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod o'r pwyllgorau anweithredol nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

# Nodyn 21: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 29 Ebrill 2013, rhoddodd Ei Mawrhydi y Frenhines Gydsyniad Brenhinol i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf hon yn creu corff corfforaethol newydd - Swyddfa Archwilio Cymru. Yn amodol ar y gorchmynion cychwyn angenrheidiol, caiff y staff hynny a gyflogwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a'r holl asedau a rhwymedigaethau a freiniwyd yn yr Archwilydd Cyffredinol, ar 31 Mawrth 2014, eu trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru yn weithredol o 1 Ebrill 2014.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol oherwydd rhagwelir y bydd gweithrediadau ariannol cyfredol yr Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cyflawni'n llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2014.